

**Adroddiad a  
Chyfrifon  
Blynyddol  
2009-2010**

**LBRO**  
Gwell Rheoleiddio Leol





## **Y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol**

### **Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2009-2010**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau yn unol â Pharagraff 12(5) Atodlen 1 o Ddeddf Sancsiynau Rheoleiddio a Gorfodi 2008 a Chyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn unol â Pharagraff 13(6) Atodlen 1 o Ddeddf Sancsiynau Rheoleiddio a Gorfodi 2008.

Gorchmynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 14 Gorffennaf 2010

HC 262  
Llundain: Y Llyfrfa  
Pris: £14.75

### **Y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol © Hawlfraint 2010**

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod eich bod yn ei atgynhyrchu'n gywir a ddim yn ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid i chi gydnabod y deunydd fel hawlfraint Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti rhaid i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

ISBN: 9780102964431

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Y Llyfrfa Cyf.  
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID: 2361370 07/10

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.


## Cynnwys



Rhagair	7
Rhagarweiniad	8
Perfformiad	13
Sylwadau'r Tîm Rheoli	23
Adroddiad ar Dâl	32
Datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2009 tan 31 Mawrth 2010	36
Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol a'r Prif Weithredwr	37
Datganiad Rheolaeth Fewnol	38
Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin	43
Cyfrif Gwariant Net	45
Mantolen	46
Datganiad llifau arian parod	47
Datganiad o'r newidiadau mewn ecwiti i drethdalwyr	48
Nodiadau'r datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2009 tan 31 Mawrth 2010	49
Datganiad o bolisiau cyfrifyddu	49
Nodiadau ar y cyfrif gwariant net	52
Nodiadau ar y Fantolen	57

## Sbotoleuadau

<b>1 Partneriaethau ar gyfer cynnydd</b>	<b>11</b>
<b>2 Gweledigaeth</b>	<b>12</b>
<b>3 Pecyn cymorth effeithiau a chanlyniadau</b>	<b>14</b>
<b>4 Trading Places</b>	<b>15</b>
<b>5 Adborth ar Awdurdod Sylfaenol - busnes</b>	<b>18</b>
<b>6 Adborth ar Awdurdod Sylfaenol - awdurdodau lleol20</b>	
<b>7 Cyngor i'r Llywodraeth</b>	<b>21</b>
<b>8 Fframwaith Rhagoriaeth</b>	<b>22</b>



## Tablau

1	Adroddiad ar dâl – y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010	33
2	Hawliau pensiwn – y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010	34
3	Crynodeb o archwiliadau mewnol	41
4	Cyfrif Gwariant Net	45
5	Mantolen	46
6	Datganiad llifau arian parod	47
7	Datganiad o'r newidiadau mewn ecwiti i drethdalwyr	48
8	Cyfrifiad o ddibrisiant eiddo, peiriannau ac offer	50
9	Mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y tro cyntaf	51
10	Costau sy'n gysylltiedig â staff	52
11	Nifer cyfartalog o bobl a gyflogwyd	54
12	Gwariant arall	54
13	Cyflawni rhaglenni o fewn costau gweinyddol	55
14	Cymorth grant	56
15	Mân incwm	56
16	Eiddo, peiriannau ac offer	57
17	Asedau anghyfyrdadwy	58
18	Symiau derbyniadwy masnachol ac asedau cyfredol eraill	59
19	Balansau o fewn y Llywodraeth	59
20	Arian parod neu gyfwerth	60
21	Symiau taladwy masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill	60
22	Balansau o fewn y Llywodraeth	60
23	Prydlesi gweithredu	61
24	Prydlesi ariannol	62
25	Cysoni diffyg ar gyfer y cyfnod i'r gronfa gyffredinol wrth gefn	63

## Rhestr o dalfyriadau

BIS	Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
BRE	Y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio
CBI	Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain
CIEH	Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
CLG	Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
HSE	Y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch
IDeA	Yr Asiantaeth Gwella a Datblygu
LAA	Asesu Ardaloedd Lleol
LACoRS	Cydygysylltwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol
LGA	Y Gymdeithas Llywodraeth Leol
NAO	Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
NDPB	Corff Cyhoeddus Anadrannol
SOLACE	Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
TSI	Y Sefydliad Safonau Masnach

## Rhagair



Yn sgil y dirwasgiad, y wers allweddol i'w dysgu yw bod rheoleiddio da yn angenrheidiol os am lewyrch economaidd a diogelwch i ddefnyddwyr. Mae'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (LBRO) yn cynorthwyo i symud y drefn o ddiwygio yn ei blaen. Rydym yn canolbwyntio ar wella'r gwaith o reoleiddio busnesau a gyflawnir gan awdurdodau lleol, a chefnogi perfformiad effeithiol o ran iechyd yr amgylchedd, diogelwch tân, trwyddedu a safonau masnach. Ymdrechwn hefyd i sicrhau bod y system aml-haenog ar gyfer rheoleiddio lleol yn gweithio mewn ffordd gydlynol ac effeithiol.

Gan mai 2009-10 oedd y flwyddyn gyfan gyntaf i ni weithredu fel corff cyhoeddus anadrannol, cafodd ein mentrau mwyaf ganlyniadau sylweddol. Y fenter Awdurdod Sylfaenol, a lansiwyd ar 6 Ebrill 2009, oedd y llwyddiant mwyaf arwyddocaol. Mae'r fenter hon yn rhoi'r cyfle i fusnesau greu cytundebau statudol ag awdurdodau lleol, sy'n darparu iddynt ffynhonnell ddibynadwy ar gyfer cyngor awdurdodol sy'n berthnasol pa le bynnag y lleolir eu storffeydd, ffatrioedd neu swyddfeydd. Roedd y partneriaethau a grëwyd erbyn diwedd mis Mawrth 2010 yn cynnwys 68 o fusnesau, 17,000 o adeiladau a mwy na 275,000 o weithwyr.

Rhaid crybwyll dwy garreg filltir sylweddol arall. Wrth lansio'r Fframwaith Rhagoriaeth, gwelwyd am y tro cyntaf gonsensws cenedlaethol ynghylch nodweddion gwasanaethau rheoleiddio da, a'r defnydd o hunanasesu ac adolygu gan gymheiriaid er mwyn sbarduno gwelliant. Ar wahân i hynny, cyhoeddwyd pecyn cymorth yn cynnwys dangosyddion ystyrion a fyddai'n galluogi gwasanaethau rheoleiddio i asesu canlyniadau ac effeithiau eu gweithrediadau. Bu i hynny eu cynorthwyo i gynnal trafodaethau mwy gwybodus ynghylch blaenoriaethau a dosrannu adnoddau.

Carem ddiolch i bawb a fu'n ein cynorthwyo yn 2009-10.

Clive Grace  
Cadeirydd  
LBRO

Graham Russell  
Prif Weithredwr  
LBRO

30 Mehefin 2010

## Rhagarweiniad



Pwy sy'n gwirio p'un a yw'r aer yn lân, bod bwyd yn ffit i'w fwyta, bod gweithleoedd yn ddiogel a chwmnïau'n masnachu'n deg? Yn y Deyrnas Unedig, caiff y tasgau hanfodol hyn eu cyflawni gan wasanaethau rheoleiddio sy'n cynnwys 433 o awdurdodau lleol.

Mae gwasanaethau rheoleiddio yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth, gydag awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff iechyd, yr heddlu ac asiantaethau'r llywodraeth - ar lefel ranbarthol a hyd yn oed yn genedlaethol, o bryd i'w gilydd - wrth fynd i'r afael â materion eang ac amrywiol fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, allyriadau carbon, newid yn yr hinsawdd, gordewdra, troseddau difrifol ac allgau cymdeithasol. Maent yn canolbwyntio ar gyflawni gwell canlyniadau er mwyn sicrhau cymunedau iach, diogel, gwyrdd a llewyrchus.

Mae gwasanaethau rheoleiddiol yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau yn ôl blaenoriaethau lleol ac anghenion cymunedol, ond nod pob un o'r gwasanaethau hyn yn y pen draw yw cyfrannu at lewyrch economaidd a diogelu defnyddwyr. Wrth geisio cyflawni'n cenhadaeth i wella'r ffordd y caiff busnes ei reoleiddio ar lefel leol, rydym yn canolbwyntio ar bedwar gwasanaeth: iechyd yr amgylchedd, diogelwch tân, safonau trwyddedu a safonau masnach. Mae'r rheiny oll yn gweithio gyda chwmnïau lleol drwy roi cyngor, cymorth a gorfodaeth, gan ddefnyddio'u harbenigedd proffesiynol i fynd i'r afael â materion allweddol.

I roi braslun o LBRO, rhoddir isod ambell i ateb cryno a syml i 10 cwestiwn allweddol, yn seiliedig ar becyn cymorth y Gymdeithas Llywodraeth Leol sy'n cynorthwyo cynghorau i graffu ar gyrrff cyhoeddus anadrannol.

### ***Pwy sy'n rheoli?***

Mae Bwrdd annibynnol yn ein llywodraethu. Enwir y naw aelod o'r Bwrdd ar dudalen 25, ac maent oll yn meddu ar brofiad helaeth o eiriolaeth, busnes, materion defnyddwyr, llywodraethu, llywodraeth leol a rheoleiddio cenedlaethol.

### ***Faint o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario?***

Byddwn yn derbyn y rhan helaeth o'n hincwm ar ffurf 'cymorth grant' gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS). Dosrannwyd £4.4 miliwn yn 2008-09 a £4.1 miliwn yn 2009-10, a chyfanswm ein gwariant gan gynnwys cyfalaf oedd £4.4 miliwn yn y flwyddyn gyntaf a £4.5 miliwn yn yr ail flwyddyn (ariannwyd y diffyg ffynonellau eraill o incwm). Ceir dadansoddiad o wariant a chostau rhaglenni ar dudalennau 55 a 56.

### ***Pa bolisiâu ar gyfrifoldeb cymdeithasol a roddwyd ar waith?***

Mae ein polisi cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn berthnasol i'n gwaith a'n gweithdrefnau recriwtio, a gweithredwn amryw bolisiâu hyblyg a pholisiâu y gall staff â theuluoedd elwa arnynt, megis darparu talebau gofal plant. Rydym yn ymrwmo i arfer gorau wrth waredu defnyddiau ac wrth ddatblygu dulliau o ddatblygu ynni a rheoli gwastraff, er nad ydym yn cael llawer o effaith gan mai corff bychan ydym. Mae ein gwaith yn cynorthwyo gwasanaethau rheoleiddio i gyfrannu at gyflawni targedau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o ran iechyd yr amgylchedd.

### ***Beth sy'n cael ei wneud i roi mwy o werth am arian?***

Mae hyn yn ganolog i bob un o'n mentrau. Er enghraifft, amcangyfrifir y bydd Awdurdod Sylfaenol (gweler tudalen 18) yn galluogi busnesau i arbed o leiaf £32 miliwn bob blwyddyn. Rydym hefyd yn craffu ar ein gweithrediadau mewnol yn hyn o beth. Drwy gyflwyno system ariannol newydd, llwyddwyd i arbed arian yn ogystal â gwella ein gweithdrefnau.

### ***Pa mor lleol yw'r gwaith?***

Mae cylch gorchwyl LBRO yn berthnasol i bob rhan o'r Deyrnas Unedig, ond i wahanol raddau o le i le, ac felly byddwn yn cysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig fel y bo'r gofyn. Tîm bach ydym, gyda dim ond un swyddfa, yng nghanol Birmingham. Mae'r staff sy'n gweithio mewn ardaloedd eraill yn rhannu swyddfeydd ag eraill, er enghraifft yn swyddfa BIS yn Llundain a Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghaerdydd.

### ***Faint o waith a wneir mewn partneriaeth?***

Hanfod ein dull o weithio yw cyflawni ar y cyd. Caiff mentrau eu llunio a'u lansio mewn partneriaeth â'r rhanddeiliaid perthnasol. Bu mwy na 200 awdurdod lleol yn ymwneud â'n prosiectau yn 2009-10. Rydym yn gweithio â chlymblaid o gyrff proffesiynol a chynrychioladol – gan gynnwys rheoleiddwyr cenedlaethol – er mwyn gwella'r system at ei gilydd. Rydym yn annog sefydliadau i gyflawni rhagoriaeth drwy broses barhaus o hunanasesu a datblygu sy'n cael ei harwain gan y sectorau.

### ***A roddir gwybodaeth i bobl yn rheolaidd?***

Rydym yn cynnal rhaglen helaeth o weithgareddau ac yn cyhoeddi cylchlythyr bob mis. Hysbysir aelodau perthnasol o staff yr awdurdodau drwy e-bost neu'r post pan gyhoeddir cyhoeddiadau newydd ar bapur. Mae gennym wefan gynhwysfawr sy'n rhannu ein holl adroddiadau, pamffledi, taflenni ac astudiaethau achos, ynghyd â'r newyddion diweddaraf a gwybodaeth gefndir.

### ***Ydych chi'n gwranddo ar farn pobl eraill?***

Yn ogystal â gweithio gyda'r glymblaid, mae awdurdodau lleol a phaneli cyfeirio busnes yn gwneud cyfraniadau allweddol. Byddwn hefyd yn cynnal ymgynghoriadau ffurfiol ac anffurfiol yn rheolaidd.

### ***Pa mor dda yw'r ymateb i graffu?***

Mae'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio (BRE) yn goruchwyllo'n gwaith. Mae'r Senedd hefyd yn craffu ar ein gwaith, yn enwedig felly'r Pwyllgor Diwygio Rheoleiddio. Byddwn yn ymateb yn brydlon i ymholiadau'r Senedd a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, gan ddatgelu unrhyw wybodaeth yn llawn. Mae gweithredu argymhellion llythyrau rheolaethol oddi wrth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac unrhyw gyrff allanol eraill sy'n berthnasol yn un o gyfrifoldebau allweddol ein Pwyllgor Archwilio, ac enwir tri aelod y pwyllgor hwnnw ar dudalen 28. Yn unol â'r arfer gorau cyfoes, byddwn yn destun arolwg statudol yn 2011.

### ***Pa mor effeithiol yw'r cyfraniad wrth asesu ardaloedd lleol?***

Er nad ydym yn ymwneud yn uniongyrchol ag asesu ardaloedd lleol, rydym wedi rhoi cryn gymorth i awdurdodau lleol. Mae ein canllaw i ddatblygu dangosyddion ystyrion ar gyfer asesu effeithiau a chanlyniadau gweithrediadau wedi cynorthwyo'r gwasanaethau rheoleiddio i gynnal trafodaethau mwy gwybodus ynglŷn â blaenoriaethau a dosrannu adnoddau, ac wedi codi ymwybyddiaeth gyffredinol o'u mentrau – gan wella eu proffil mewn partneriaethau strategol lleol. Rydym hefyd wedi gweithio â SOLACE i amlygu swyddogaeth y gwasanaethau rheoleiddio wrth gyflawni'r blaenoriaethau oran asesu ardaloedd lleol, gan gynnwys y lefel o foddhad ymhlith busnesau yng nghyswllt eu gweithgareddau. (Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol 182).



## Sbotolau 1: Partneriaethau ar gyfer cynnydd

Gan ystyried ein bod yn gweithio mewn amgylchedd mor gymhleth, mae'n hanfodol ymgysylltu ag eraill er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau. Rydym yn gweithio gyda'n clymblaid ar gyfer gwell rheoleiddio, sydd yn ei dro yn derbyn cyfraniad hanfodol gan ein panel cyfeirio awdurdodau lleol. Cawn hefyd gyngor ac adborth gan ein panel cyfeirio busnes, a ffurfiwyd ym mis Rhagfyr 2009.

### Clymblaid ar gyfer gwell rheoleiddio

Iechyd Anifeiliaid	Y Comisiwn Hapchwarae
Y Comisiwn Archwilio	Y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch
Y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio	Y Sefydliad Trwyddedu
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd	Cydygysylltwyr Gwasanaethau Rheoleiddio
Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân	Awdurdodau Lleol
Cymunedau a Llywodraeth Leol	Y Swyddfa Fesur Wladol
Asiantaeth yr Amgylchedd	Y Swyddfa Masnachu Teg
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	Y Sefydliad Safonau Masnach

### Panel cyfeirio awdurdodau lleol – cynghorau a gynrychiolir

Barnsley	Newham
Birmingham	Norfolk
Brighton	Gogledd Swydd Lanark
Swydd Gaergrawnt	Gogledd Norfolk
Cannock Chase	Omagh
Chelmsford	Gogledd Orllewin Swydd Gaerlŷr
Dinas Llundain	Southampton
Cernyw	Suffolk
Swydd Derby	Torfaen
Dinas Dundee	Westminster
Essex	Wigan
Dwyrain Hampshire	Swydd Gaerwrangon
Swydd Hertford	

### Panel cyfeirio busnesau

Alliance Boots (aelod CBI)	Ffederasiwn Bwyd a Diod
Asda (aelod BRC)	Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Cymdeithas Siopau Nwyddau Cyfleus	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Cymdeithas Gwrw a Thafarndai Prydain	Ffederasiwn Manwerthwyr Papurau Newydd
Siambrau Masnach Prydain	Y Gymdeithas Gofal Anifeiliaid Anwes
Cymdeithas Bwyd wedi'i Rewi Prydain	Ffederasiwn Masnachu Bwydydd
Ffederasiwn Nwyddau Metel Prydain	Sainsbury's (aelod BRC)
Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain	Cymdeithas Pysgod y Môr
Consortiwm Manwerthu Prydain (BRC)	Cymdeithas Awdurdodau Lleol Allanol
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd	Tesco (aelod BRC)
Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)	WH Smith (aelod BRC)
Y Gymdeithas Direct Selling Association	Siopau Nwyddau Metel Wilkinson (aelod BRC)
Ffederasiwn Busnesau Bach	Cymdeithas Fasnach Gwinoedd a Gwirodydd

## **Sbotolau 2: Gweledigaeth**

Bu i'n Strategaeth 2008-11 fynegi ein gweledigaeth, sydd yn seiliedig ar sicrhau gwahaniaethau cadarnhaol y gellir eu dangos ar gyfer ein holl grwpiau o randdeiliaid. Byddwn yn mesur ein llwyddiant yn ôl y gwelliannau a ragwelwn ar gyfer pob grŵp, a rhoddir crynodeb o hynny isod:

### **Ar gyfer cymunedau:**

- Gwell diogelwch i bobl rhag drwgfasnachwyr.
- Ystyried iechyd a diogelwch gweithwyr yn briodol.
- Pobl yn fwy gwerthfawrogol o'r amgylcheddau lleol y maent yn byw neu'n gweithio ynddynt.
- Cyflawni mwy o lewyrch drwy sbarduno gwaith a buddsoddiad.
- Defnyddwyr yn mynegi mwy o foddhad â'r gwasanaeth a dderbyniant, a rheoleiddwyr lleol yn gwrando ar eu barn.

### **Ar gyfer busnesau:**

- Deddfwriaeth yn haws ei ddeall.
- Gweithdrefnau symlach yn arbed amser ac arian.
- Mynediad rhwydd i gyngor arbenigol ar faterion rheoleiddiol.
- Lleihau'r baich ar y rhai sy'n ufuddhau'r gyfraith.
- Cwmnïau yn cael llais cryfach o ran rheoleiddio lleol.
- Sawl busnes yn elwa ar weithio mewn partneriaethau agos gyda'u hawdurdodau lleol.

### **Ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol:**

- Haws rhoi cyngor ar ddeddfwriaeth, a'i orfodi.
- Fframweithiau cyffredin a gweithdrefnau symlach yn arbed amser ac arian.
- Offerynnau rheoleiddiol ar gael i'w defnyddio er mwyn creu amgylchedd lleol gwell.
- Hunanasesu a datblygu yw'r dull cyffredin wrth anelu at safon rhagori unol.
- Dull o weithio mewn partneriaeth â busnesau yn gyffredin.


### **Ar gyfer rheoleiddwyr cenedlaethol a phartneriaid eraill:**

- Cyflawnir nodau polisi drwy fynd ati i ymgysylltu â rheoleiddwyr cenedlaethol a lleol o fewn cyfundrefn gydlynol.
- Cyfathrebu ag awdurdodau lleol mewn ffordd agored, uniongyrchol a chyson.
- Perthnasau pendant yn bodoli â gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol.

# Perfformiad



Ar y tudalennau sy'n dilyn, asesir ein gweithgareddau yn ystod 2009-10 yn ôl ein tri amcan strategol, a ddengys yng nghyd-destun ein strategaeth yn Ffigur 1.



Figwr 1: Strategaeth LBRO

## **Amcan 1: Cynorthwyo'r gwaith o wella gwasanaethau rheoleiddio'r awdurdodau lleol**

Gellir dod â'n mentrau i gynorthwyo'r gwaith o wella gwasanaethau dan arweiniad y sectorau ynghyd dan bedwar maen prawf pennaf y Fframwaith Rhagoriaeth, a ddisgrifir ar dudalen 22. Dyma'r maen clo newydd ar gyfer rheoli perfformiad gwasanaethau rheoleiddio, ac mae'n cyfuno'r elfennau mwyaf cadarn o'r safonau cenedlaethol cydnabyddedig gyda dull tra ymarferol o ddatblygu.

### **Cyflawni canlyniadau mewn ffordd effeithiol a chynaliadwy**

Roedd cyhoeddi ein canllaw i ddatblygu dangosyddion ystyrion er mwyn asesu effeithiau a chanlyniadau gweithrediadau yn garreg filltir arwyddocaol. Mae hynny wedi cynorthwyo'r gwasanaethau rheoleiddio i gynnal trafodaethau mwy gwybodus ynglŷn â blaenoriaethau a dosrannu adnoddau, ac wedi codi ymwybyddiaeth gyffredinol o'u mentrau – gan wella eu proffil mewn partneriaethau strategol lleol.

### **Sbotolau 3: Pecyn cymorth effeithiau a chanlyniadau**

Pan fo adnoddau'n prinhau, mae'n bwysig gallu dangos gwerth y gwaith a gaiff ei wneud neu'i gynnig. Mae ein hadroddiad ar effeithiau a chanlyniadau, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2009, yn darparu proses i wasanaethau rheoleiddio ar gyfer datblygu sail tystiolaeth gadarn ar gyfer mesur y buddion y mae eu gweithgareddau yn eu cyflawni ar gyfer busnesau lleol a'u defnyddwyr. Seiliwyd yr adroddiad ar gyfweiliadau a gweithdai a gynhaliwyd gyda swyddogion cynghorau lleol, yn ogystal ag arfer cyfredol. Craidd yr adroddiad yw'r pecyn cymorth, sydd yn ganllaw cam wrth gam i ddatblygu dangosyddion ystyrion i asesu effeithiau a chanlyniadau gweithrediadau. Gellir defnyddio graffeg i roi crynodeb o'r cyfraniadau hanfodol i gymunedau.

*"Mae sicrhau bod gwasanaethau rheoleiddio yn cyflawni canlyniadau effeithiol sy'n cyfrannu at nodau sefydliadau mor bwysig ag erioed. Mae'r pecyn cymorth yn ein galluogi i wneud cysylltiadau uniongyrchol rhwng cyfraniadau ac effeithiau a chanlyniadau go iawn, ac o'i ddefnyddio yn greadigol, mae'n bosib canfod diffygion yn y prosesau neu'r adnoddau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni canlyniadau y rhoddir blaenoriaeth iddynt. Rydym wedi dechrau defnyddio'r pecyn cymorth wrth gynllunio ein gwasanaethau."*

Andy Goldsmith, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Swydd Amwythig

Bu i'r Peilot Gorfodi Manwerthu ddod ag awdurdodau lleol, busnesau a chyrrff llywodraethol ynghyd i ganfod dulliau newydd y gallai gwasanaethau rheoleiddio eu mabwysiadu i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir, a gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar gael. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros reoli'r Peilot Gorfodi Manwerthu o'r BRE i LBRO ym mis Medi 2008. Buom yn cynorthwyo 31 cyngor mewn clwstwr daearyddol, yn rhoi arweiniad iddynt wrth roi ar waith dull cydweithredol, seiliedig ar risg o fynd i'r afael â gweithgareddau. Cyhoeddwyd y canlyniadau mewn dau adroddiad; y naill yn canolbwyntio ar y gwersi allweddol a ddysgwyd, a'r llall yn ymdrin ag effaith y Peilot Gorfodi Manwerthu ar y busnesau a archwiliwyd. Wrth fabwysiadu dull archwilio integredig, mae'n ofynnol meithrin partneriaethau cryf a datblygu mecanweithiau cadarn ar gyfer rhannu gwybodaeth drwy ddefnyddio TG yn effeithiol, ac yn fwyaf arwyddocaol, mae'n ofynnol newid diwylliant.

Rhaid i wasanaethau rheoleiddio ddiwallu anghenion eu hardaloedd wrth barhau i fod yn rhan effeithiol o system gyfreithiol y Deyrnas Unedig. Yn 2007, bu i Adroddiad Rogers gyflwyno blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol am y tro cyntaf yn Lloegr, a gallai cynghorau ddefnyddio'r rheiny wrth ddsrannu adnoddau er mwyn bodloni disgwyliadau cymunedau a busnesau. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar y blaenoriaethau cenedlaethol cyntaf ar gyfer Cymru ym mis Rhagfyr 2009. Llywodraeth Cynulliad Cymru a luniodd y ddogfen honno ar ein rhan, gyda'r nod o adlewyrchu egwyddorion sylfaenol *Cymru'n Un*: gwasanaethau cyhoeddus sy'n atebol ac yn canolbwyntio ar y dinesydd.

### **Canolbwyntio ar gwsmeriaid ag ymgysylltu â hwy**

Fe wnaeth 295 o reoleiddwyr lleol gynyddu eu dealltwriaeth o amgylcheddau masnachol, neu gofrestru i wneud hynny, drwy fynd ar leoliadau gwaith *Trading Places* gyda chwmnïau yn y Deyrnas Unedig. Roedd 189 o fusnesau a chymdeithasau masnach yn cynorthwyo'r prosiect. Bu i'r Pwyllgor Diwygio Rheoleiddio gymeradwyo'r fenter addysgu hon yn ei adroddiad *Themâu a Thueddiadau mewn Diwygio Rheoleiddio* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009.

## **Sbotolau 4: Trading Places**

Lansiwyd *Trading Places* ym mis Mawrth 2009, ac mae'n cynorthwyo swyddogion cyngor i gael cipolwg gwerthfawr ar sut mae busnesau'n ymdrin â rheoleiddio. Trefnir ymweliadau astudiaeth byr, ond dwys, gyda chwmnïau Prydeinig o bob maint, weithiau drwy gymdeithasau masnach neu gyrff cynrychioladol. Mae'r profiad dysgu ymarferol hwn yn agored i bob swyddog iechyd yr amgylchedd, diogelwch tân, trwyddedu a safonau masnach sy'n gweithio i awdurdodau lleol, yn ogystal â busnesau o unrhyw sector. Fe'i cymeradwyir gan fudiadau busnes a chyrrff proffesiynol.

Wrth feithrin cyd-ddealltwriaeth rhwng y gwasanaethau rheoleiddio a'r cwmnïau y maent yn eu monitro, mae pawb yn elwa drwy gryfhau perthnasau gwaith a hyrwyddo dull o weithio mewn partneriaeth wrth gyflawni cydymffurfiaeth.

*“Mae Trading Places fel chwa o awyr iach i Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd. Nid yw'r cynllun yn dibynnu ar theori, ac nid oes unrhyw beth yn digwydd ar hap, nac oherwydd camddealltwriaeth. Mae swyddogion safonau masnach yn cael gweld o lygad y ffynnon sut brofiad yw rhedeg siop bapur newydd, a allai gynnwys pobl yn codi braw arnynt neu'n eu bygwth pan fyddant yn gwrthod gwerthu alcohol neu dybaco i gwsmeriaid dan oed. Bydd ein haelodau ninnau hefyd yn elwa yn y tymor hir o gael swyddogion mwy gwybodus a fydd yn cydymdeimlo â'r anawsterau a'r materion amrywiol sy'n wynebu manwerthwyr. Credwn y bydd hon yn bartneriaeth weithredol yn y dyfodol. Bydd hefyd yn ei gwneud yn haws i ddal drwgfasnachwyr a delio â hwy yn briodol.”*

Parminder Singh, Is-lywydd Cenedlaethol, Ffederasiwn Manwerthwyr Papurau Newydd.

Buom hefyd yn gweithio â'r tri chyngor a enillodd y categori 'Cwtogi ar Fân Reolau' fel rhan o'r cynllun *Beacons* a gynhaliwyd dan reolaeth IdeA ym mis Mawrth 2009, a oedd â'r nod o hyrwyddo'u dulliau arloesol o ddarparu cymorth effeithiol i fusnesau sy'n ufuddhau'r gyfraith.

### **Arweinyddiaeth, strategaethau a chydweithrediad**

Buom yn gweithio gyda phedwar grŵp peilot, gan arbrofi gyda pherthnasau rhanbarthol rhwng gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a safonau masnach, er mwyn canfod y buddion a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny.

Ar sail gwaith ymchwil y bu i ni ei gomisiynu, fe wnaethom hefyd gyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â'r goblygiadau o rannu gwasanaethau rheoleiddio o fewn awdurdodau lleol, neu rhwng gwahanol awdurdodau lleol. Roedd yr wybodaeth yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer symbylu gwelliant.

Mewn partneriaeth â LACoRS, CIEH a TSI, bu i ni gynnal y gynhadledd ar y cyd gyntaf ar arweinyddiaeth ar gyfer iechyd yr amgylchedd a safonau masnach ym mis Chwefror 2010. Roedd hyn yn gyfle i gyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaethau ddod ynghyd i rannu syniadau, arfer gorau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

### Adnoddau, gweithgaredd a rheoli pobl

Ers creu naw awdurdod unedol newydd ym mis Ebrill 2009, rydym wedi cynorthwyo pob un ohonynt i ddatblygu dulliau cydlynol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ar gyfer darparu gwasanaethau rheoleiddio. Wrth iddynt ddysgu ar y cyd, rydym ninnau'n dysgu gwersi gwerthfawr am gydwethrediad ar draws ffiniau proffesiynol a daearyddol.

Bu i ni gomisiynu adroddiad ar y mentrau llwyddiannus a gyflwynwyd gan gynghorau a heddluoedd ledled y Deyrnas Unedig i leihau'r swm o alcohol a werthir i bobl ifainc dan oed, a'r swm y mae rhai iau na 18 yn llwyddo i gael gafael arno. Roedd eu dulliau'n amrywio o weithredu polisïau dim goddefgarwch i ddarparu rhaglenni addysgol ar gyfer deiliaid trwyddedau, rhieni a disgyblion ysgol. Roedd y canfyddiadau a ddaeth yn sgil y mentrau hynny yn sail i'n hymateb i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref, *Diogel. Call. Cymdeithasol. Gwerthu alcohol yn gyfrifol.*

<b>Targedau allweddol ar gyfer 2009-12</b>	<b>Ein cynnydd erbyn mis Mawrth 2010</b>
80% o fusnesau yn ystyried bod gwasanaethau rheoleiddio yn deg ac yn ddefnyddiol.	Canfuwyd y ffigyrau gwaelodlin, a bwriedir cynnal asesiad cychwynnol ym mis Hydref 2010.
85% o fusnesau yn datgan bod gwasanaethau rheoleiddio yn deall eu busnes.	Canfuwyd ffigur gwaelodlin o 75%.
50% o wasanaethau rheoleiddio wedi mesur effaith eu gweithgareddau ar gymunedau.	Credir bod 75 o wasanaethau rheoleiddio wedi defnyddio ein pecyn cymorth effeithiau a chanlyniadau.
50% o awdurdodau lleol wedi penodi staff i'r cynllun <i>Trading Places</i> .	18% o awdurdodau wedi penodi swyddog ym mlwyddyn gyntaf y cynllun.
<b>Buddion blynyddol disgwylidig y gellir eu priodoli i weithgareddau LBRO: £8.6 miliwn</b> (Asesiad Effaith: Mesur Gorfodi Rheoleiddio a Sancsiynau, BERR, Mai 2008)	

### Adnoddau eraill er gwybodaeth ar wefan LBRO

*Impact and Outcomes Toolkit: Summary*, RAND Ewrop/LBRO, Mawrth 2010  
*Review and Assessment of the Lessons Learned from REP* (Adroddiad ar Wersi a Ddysgwyd), Canolfan Ddadansoddi Penderfyniadau a Rheoli Risg, Prifysgol Middlesex, Mawrth 2010  
*Review and Assessment of the Methodology of REP in a Business Environment* (Adroddiad CRED), Canolfan Datblygu Economaidd Rhanbarthol, Prifysgol Cumbria, Hydref 2009  
*Trading Places: Business Insight for Local Authorities*, LBRO, Tachwedd 2009  
*Strategic Implications of Shared Working in Regulatory Services* (adroddiad llawn LBRO), LBRO, Hydref 2009  
*Protecting Young People from Alcohol-related Harm*, Research by Design Ltd., Gorffennaf 2009

## Amcan 2: Cyflawni cysondeb

### Awdurdod Sylfaenol

Mae gofyn am hyder a chyd-ymdiriedaeth os am reoleiddio lleol effeithiol. Dylai busnesau fedru dibynnu ar y cyngor y mae awdurdodau lleol yn ei roi ar iechyd yr amgylchedd, trwyddedu a safonau masnach, gan wybod eu bod yn derbyn barn arbenigol, sy'n berthnasol ymhob cwr o'r Deyrnas Unedig, ac yn rhoi sail gadarn iddynt ar gyfer penderfynu ynghylch buddsoddi a gweithrediadau.

Mae Awdurdod Sylfaenol yn rhoi'r hawl i gwmnïau ffurfio partneriaeth statudol gydag un awdurdod lleol, sydd yna'n darparu cyngor cadarn a dibynadwy y gall cynghorau eraill ei ystyried wrth wneud archwiliadau neu fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth. Dyma ddull o sbarduno llewyrch: wrth ddarparu arbenigedd wedi'i deilwra, ceir mwy o fuddsoddiad a gwaith mewn cymunedau lleol.

Mae Deddf Gorfodi Rheoleiddio a Sanesiynau 2008 yn pennu egwyddorion Awdurdod Sylfaenol. LBRO sydd â'r cyfrifoldeb statudol i weithredu'r cynllun. Byddwn yn cofrestru partneriaethau, yn cyflwyno canllawiau ac yn datrys anghydfod.

### Sbotolau 5: Adborth ar Awdurdod Sylfaenol – busnes

*“Gan ein bod yn gwmni rhyngwladol, gwyddom fod yr Unol Daleithiau yn gweld y Deyrnas Unedig fel enghraifft o arfer gorau o ran cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol. Yn hynny o beth mae gan Awdurdod Sylfaenol oblygiadau ar gyfer yr economi fyd-eang, gan ei fod yn newid y berthynas rhwng busnesau a rheoleiddwyr lleol. Yn y pen draw mae'n rhaid i ni anelu at yr un nod: darparu lle diogel i siopa a gweithio. Ar y cyfan, mae cymhellion da gan fusnesau parchus, yn ogystal â gwybodaeth dda, a phe bai swyddogion gorfodi'n cael rhyddid i ganolbwyntio ar fusnesau â risg uchel, troseddwyd mynych a drwgfasnachwyr, buasai pawb yn ennill.”*

Stuart Wiggans, Rheolwr Cyfraith Masnachu, Asda

Cafwyd lansiad addawol ar 6 Ebrill 2009. Fe wnaeth B&Q, Iceland a Moto Hospitality lofnodi cytundebau yn ddiymdroi, a bu i Gynghorau Eastleigh, Sir y Fflint a Chanol Swydd Bedford oll gymryd rhan yn y cynllun peilot. (Mae'n hawdd rhoi cychwyn arni: ceir ffurflen gais ar ein gwefan sy'n rhestru'r holl faterion allweddol y dylid cytuno yn eu cylch ar y dechrau) Wedi hynny, bu i ni droi'n golygon at gynorthwyo busnesau ac awdurdodau lleol i greu perthnasau a'u llunio. Bu i ni fynd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb, darparu adnoddau perthnasol a pharhau i ddatblygu'r system TG ddiogel y mae cynghorau'n ei defnyddio. Fe wnaethom hefyd gyfrannu at y ddarpariaeth o addysg gyfoed drwy gynorthwyo Cyngor Westminster i sefydlu canolfan rhagoriaeth Awdurdod Sylfaenol ar gyfer hyfforddiant a rhannu arfer da.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2010, sefydlwyd 221 o bartneriaethau, yn cynnwys 68 o fusnesau, 17,000 o adeiladau a mwy na 275,000 o weithwyr.

Bellach mae cynghorau yn elwa ar gael mynediad i well gwybodaeth. Mae Awdurdod Sylfaenol yn rhyddhau'r holl wybodaeth ar risgiau busnes a systemau i'r arolygwyr o'r cychwyn cyntaf. O ganlyniad i hynny, wrth fynd i archwilio eiddo maent wedi cael eu briffio'n dda ac yn hyderus ynglŷn â beth i'w ddisgwyl. Mae hynny'n eu galluogi i osgoi dyblygu ymdrechion, a chanolbwyntio adnoddau ar y meysydd ble mae'r angen mwyaf.

Er bod rhaid cadw'r hyblygrwydd wrth fynd i'r afael ag amgylchiadau lleol, mae cael gwared ag anghysondeb o ran dehongliadau gwahanol ardaloedd yn rhoi gwell hygredd ac enw da i'r holl reoleiddwyr lleol. Mae hefyd yn cynorthwyo i ddiogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd, ac i sicrhau bod amodau masnachol yr un fath i bawb, gan roi mwy o hyder i fusnesau fuddsoddi a thyfu.

### Meysydd gwaith eraill

Roedd ein prosiect ar fygythiadau cenedlaethol yn astudiaeth o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael ag anawsterau sy'n croesi ffiniau cynghorau, yn enwedig felly clefydau anifeiliaid, sgamiau ffôn symudol a mewnfario anghyfreithlon. Fe wnaethom asesu'r cyfyngiadau sy'n rhwystro awdurdodau rhag targedu adnoddau ar feysydd fel hyn, er y buasai busnesau a defnyddwyr yn elwa yn economaidd ar hynny. Defnyddiwyd dyfyniadau o'n gwaith ymchwil fel sail tystiolaeth awdurdodol yn y Papur Gwyn *Gwell Bargaen i Ddefnyddwyr - Cyflawni Cymorth Go lawn Heddiw a Newid yn y Dyfodol*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009. Ar sail ein dealltwriaeth o'r sefyllfa sydd ohoni o ran goruchwyllo'r nwyddau i ddefnyddwyr sy'n dod i mewn i borthladdoedd yn y Deyrnas Unedig, fe wnaethom sawl argymhelliad i BIS. Yn sgil hynny cawsom ein gwahodd i arwain y gwaith o ddosrannu cyllid ychwanegol ar gyfer canolbwyntio ar nwyddau'n dod i mewn i borthladdoedd allweddol. Bu i ni ffurfio grŵp rhanddeiliaid ym mis Ionawr 2010 a fu'n cyfeirio ein penderfyniadau.

Wrth gydweithio â BRE a Chyfarwyddiaeth Menter BIS, bu i ni gynnal cyfweiliadau â chynrychiolwyr rhai o fusnesau lleiaf y Deyrnas Unedig. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn sail ar gyfer mentrau ar y cyd yn y dyfodol, a bydd yn cynorthwyo i gyflawni gwell canlyniadau i Fusnesau Bach a Chanolig ynghyd â rheoleiddwyr, drwy ddefnyddio dulliau fel targedu cyngor a chyflwyno canllawiau mwy eglur.

<b>Targedau allweddol ar gyfer 2009-12</b>	<b>Ein cynnydd erbyn mis Mawrth 2010</b>
100% o'r busnesau sy'n dymuno creu perthynas Awdurdod Sylfaenol yn llwyddo i wneud hynny ymhen chwe mis.	100% wedi llwyddo
650 o bartneriaethau Awdurdod Sylfaenol yn bodoli, gan gynnwys o leiaf 250 o fusnesau. <i>Targed ar gyfer 2009-10: 100 o bartneriaethau.</i>	Ffurfiwyd 221 o bartneriaethau yn cynnwys 68 o fusnesau.
I'r busnesau a'r awdurdodau lleol hynny sydd eisoes wedi ffurfio partneriaethau Awdurdod Sylfaenol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• 80% o fusnesau ac awdurdodau lleol yn datgan eu boddhad</li> <li>• 85% o fusnesau yn datgan bod y cyngor a gawsant yn gyson iawn, neu'n weddol gyson</li> <li>• 95% o fusnesau yn datgan eu bod yn gweld dull mwy cyson o reoleiddio.</li> </ul>	Bwriedir cynnal asesiad parhaus yn 2010-11, pan fydd y partneriaethau wedi bod mewn bodolaeth am flwyddyn.
<b>Buddion blynyddol disgwylidig y gellir eu priodoli i weithgareddau LBRO: £4.3-£9.5 miliwn</b> <small>(Asesiad Effaith: Mesur Gorfodi Rheoleiddio a Sancsiynau, BERR, Mai 2008)</small>	



## Adnoddau eraill er gwybodaeth ar wefan LBRO

*Primary Authority: The Gateway to Better Regulation*, LBRO, Mawrth 2010

*Primary Authority Business Briefing Note*, LBRO, Medi 2009

*Addressing National Threats through Local Service Delivery*, LBRO, Rhagfyr 2009

### Sbotolau 6: Adborth ar Awdurdod Sylfaenol – awdurdodau lleol

*“Mae Cyngor Enfield yn ystyried Awdurdod Sylfaenol i fod yn gyfrwng delfrydol ar gyfer cynorthwyo mentrau bach a chanolig i ddatblygu eu busnesau. Bydd y partneriaethau yn rhoi iddynt y sicrwydd angenrheidiol ar gyfer masnachu mewn marchnadoedd rhanbarthol a chenedlaethol, gan y byddant yn derbyn cyngor cyson gan un awdurdod lleol. I gydnabod pa mor bwysig yw llwyddiant busnesau fel hyn i'r economi leol, mae Cyngor Enfield wedi cynnig darparu cyngor drwy bartneriaethau Awdurdod Sylfaenol yn rhad ac am ddim i'r holl fusnesau bach a chanolig yn yr ardal.”*

Bob Griffiths, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cynllunio a Diogelu'r Amgylchedd, Adran yr Amgylchedd a Strydlun, Bwrdeistref Enfield Llundain.

### Amcan 3: Gwella'r system reoleiddio leol

***Mae cyfundrefn reoleiddio'r Deyrnas Unedig yn cynnwys 433 o gynghorau, 58 awdurdod tân ac achub, 152 awdurdod iechyd porthladdoedd, 11 o reoleiddwyr cenedlaethol a 12 o adrannau'r Llywodraeth ganolog, yn ogystal â'r adrannau cyffelyb yn y gwledydd datganoledig, ac amrywiaeth o gyrff cynrychioladol eraill.***

Bu i'n gwaith helaeth â phartneriaid ddwyn ffrwyth ym mis Chwefror 2010, pan gyhoeddwyd Fframwaith Rhagoriaeth ar y cyd gan LBRO/LACoRS, a dyma'r tro cyntaf y cafwyd consensws cenedlaethol ynghylch nodweddion gwasanaethau rheoleiddio o ansawdd da, a'r defnydd o hunanasesu ac adolygu gan gymheiriaid er mwyn sbarduno gwelliant.

Gyda golwg ar gyfnerthu'r fframwaith, bu i ni lansio prosiect mawr gyda'n clymblaid i ddatblygu dulliau cyffredin ac ymarferol o fynd i'r afael ag agweddau penodol ar wasanaethau rheoleiddio. Un o'r nodau allweddol yw cyfuno'r amrywiaeth o fodolau rheoleiddio a thechnegau gorfodi sydd ar hyn o bryd yn rhwystro'r gwaith o reoleiddio ar sail risg.

Cafwyd cytundeb ynglŷn â dulliau cyffredin o sicrhau cymhwysedd ac asesu risg, gan hyrwyddo'r elfennau gorau o'r arfer cyfredol a lleihau dyblygiad. Roedd ein hadroddiad ar gasglu data hefyd yn darparu sail tystiolaeth ar gyfer cynnydd. Canfuwyd bod gwasanaethau rheoleiddio ar hyd a lled Cymru a Lloegr yn gwneud 139 cais i gasglu data bob blwyddyn, ac amcangyfrifir bod hynny'n costio oddeutu £6 miliwn mewn amser staff.

Mae'n hanfodol fod yno werthfawrogiad ar lefel strategol o werth y gwasanaethau rheoleiddio, er mwyn iddynt fedru cyfrannu i'r eithaf at fodloni anghenion mwy cyffredinol eu cymunedau. Fe wnaethom barhau i gydlynu'r ymdrechion i godi ymwybyddiaeth ymhlith prif weithredwyr awdurdodau lleol a'r aelodau etholedig o'r potensial arwyddocaol i'r gwasanaethau rheoleiddio gyfrannu at flaenoriaethau llywodraeth leol.

Bu i ni hefyd ddiweddarau ein hadroddiad mapio, sydd yn egluro'r perthnasau cymhleth rhwng yr holl sefydliadau sy'n rhan o'r gyfundrefn, drwy ddangos sut mae eu swyddogaethau yn ategu'i gilydd, yn gorgyffwrdd ac yn mynd yn groes i'w gilydd ar adegau. Mae meithrin cyd-ddealltwriaeth yn cynorthwyo pawb sy'n cyfrannu at reoleiddio lleol wrth iddynt fynd ati i gyflawni gwelliant.

<b>Targedau allweddol ar gyfer 2009-12</b>	<b>Ein cynnydd erbyn mis Mawrth 2010</b>
Gostyngiad o 10% yn y beichiau go iawn ar wasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol.	Canfuwyd gwaelodlin o £6 miliwn yn ein hadroddiad ar gasglu data. Bwriedir cynnal asesiad yn 2011-12
60% o awdurdodau lleol wedi hunanasesu yn unol â'r Fframwaith Rhagoriaeth, ac wedi llunio cynllun gwella.	43 awdurdod lleol (10%) wedi hunanasesu a llunio cynllun gwella.
<b>Buddion blynyddol disgwylidig y gellir eu priodoli i weithgareddau LBRO: £3.9 million</b> <small>(Asesiad Effaith: Mesur Gorfodi Rheoleiddio a Sanesiynau, BERR, Mai 2008)</small>	

#### **Adnoddau eraill er gwybodaeth ar wefan LBRO**

*Local Authority Regulatory Services Excellence Framework, LBRO/LACoRS, Chwefror 2010*  
*Data Collections from Local Authority Regulatory Services, CIPFA, Rhagfyr 2009*  
*Mapping the Local Authority Regulatory Services Landscape, LBRO, Tachwedd 2009*

### **Sbotolau 7: Cyngor i'r Llywodraeth**

Mae pawb yn elwa ar ddeddfu gwell. Yn unol â swyddogaeth statudol LBRO i ddarparu cyngor rhagweithiol ac adweithiol i'r Llywodraeth ar reoliadau lleol sy'n bodoli eisoes, bu i ni rannu gwybodaeth am ein prosiect ar fygythiadau cenedlaethol, fel y crybwyllir ar dudalen 19.

Cyn i Dreth ar Werth ddychwelyd i'r gyfradd 17.5% ar 1 Ionawr 2010, roedd busnesau wedi mynegi pryder fod y cyfnod o 14 diwrnod ar gyfer newid prisiau yn rhy fyr. Yn sgil hynny bu i ni argymhell i BIS y dylid ymestyn y cyfnod hwnnw i 28 diwrnod. Derbyniwyd y cyngor hwnnw.

Bu i ni hefyd gynnig cyngor ar y codau ymarfer gorfodol arfaethedig ar gyfer gwerthu alcohol. Fe wnaethom amlygu'r dulliau y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio wrth ymgysylltu â busnesau a chynllunio ymyriadau effeithiol.


## Sbotolau 8: Fframwaith Rhagoriaeth

Yn seiliedig ar egwyddorion yn hytrach na rhagnodi, y Fframwaith Rhagoriaeth yw'r maen clo ar gyfer rheoli perfformiad gwasanaethau rheoleiddio. Lluniwyd y Fframwaith ar y cyd gan LBRO, awdurdodau lleol a LACoRS, gyda chyfraniadau gan reoleiddwyr cenedlaethol, llywodraeth ganolog a chyrrff proffesiynol. Mae'n seiliedig ar safonau cydnabyddedig ac yn ymdrin â'r holl agweddau ar gyflawni gwasanaethau, gan adlewyrchu barn a phrofiadau ymarferwyr. Y nod yn y pen draw yw galluogi gwasanaethau rheoleiddio i gymryd cyfrifoldeb dros eu perfformiad, fel y gallant wneud y gorau o'u cyfraniad at y canlyniadau pwysig sy'n cael eu hamlygu drwy Gytundebau Ardal Leol yn Lloegr, Cytundebau Cyflawni Lleol yng Nghymru, yn ogystal â'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol.

Rhennir y Fframwaith Rhagoriaeth yn bedair thema gyffredinol: arweinyddiaeth a strategaeth, canolbwyntio ar gwsmeriaid, rheoli adnoddau, a chyflawni canlyniadau cynaliadwy. Lansiodd y Fframwaith dan gynllun peilot, gyda 43 awdurdod lleol yn ei ddefnyddio yng nghyswllt hunanasesu a herio gan gymheiriaid, ac roedd hynny'n seiliedig ar waith a wnaed gydol y sector llywodraeth leol mewn blynyddoedd diweddar. Bydd gwerthusiad o'r fenter hon yn sail ar gyfer datblygu ein pecyn cymorth gwell rheoleiddio lleol.

*"Wrth ddarparu gwasanaethau rheoleiddio yn lleol, rhaid eu llunio fel eu bod yn bodloni anghenion a blaenoriaethau'r dinasyddion a'r cymunedau. Mae'r Fframwaith Rhagoriaeth yn cynorthwyo cynghorau i adolygu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau rheoleiddio, ac i nodi cryfderau y gellir eu rhannu, yn ogystal â meysydd y gellid eu gwella. Mae sawl awdurdod lleol wedi defnyddio'r Fframwaith ar gyfer hunanasesu yn ystod y cyfnod peilot, gan ddatblygu cynlluniau gwella a ddilyswyd wedi hynny gan gymheiriaid yn herio. Wrth i fwy o gynghorau fabwysiadu'r Fframwaith Rhagoriaeth, edrychwn ymlaen at eu gweld yn dod yn rhydd o'r beichiau a roddir arnynt gan lywodraeth ganolog, a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r adnodd lleol gwerthfawr hwn i gyflawni canlyniadau cadarnhaol go iawn ar ran pobl leol a'u cymunedau."*

Y Cynghorydd Paul Bettison, Cadeirydd, Cydygysylltwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol



## Sylwadau'r Tîm Rheoli



### Rhagolwg

Amcan ein gwaith yn y pen draw yw cyflawni gwell rheoleiddio ar lefel lleol, gan adeiladu ar y seiliau cadarn a osodwyd gan Arolwg Hampton yn 2005. Ein nod yw sicrhau bod rheoleiddio:

- yn cael ei dargedu ar sail llwyr ddealltwriaeth o'r materion dan sylw;
- yn cael ei roi ar waith mewn ffordd gyson a thryloyw;
- yn gymesur â'r bygythiad sy'n bodoli;
- yn cael ei roi ar waith gan sefydliadau sy'n wirioneddol atebol am eu gweithredoedd.

Awn ati i gyrraedd y nod drwy annog dull systemig o reoleiddio sy'n seiliedig ar risg. Mae hynny'n golygu creu fframwaith ar gyfer penderfyniadau cadarn sydd:

- yn cynorthwyo ffurfiant partneriaethau lleol effeithiol;
- yn hyrwyddo gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau;
- yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng y wladwriaeth, busnesau a dinasyddion.

O ran gwasanaethau rheoleiddio, dymunwn weld ystyriaeth o'r risg i bobl a'r amgylchedd yn greiddiol i bob cam o'r broses gyflawni, gan gynnwys:

- llunio deddfwriaeth sylfaenol;
- dulliau gweithredu'r cyrff rheoleiddio perthnasol;
- pennu blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol;
- awdurdodau lleol yn dosrannu adnoddau;
- rheoli gweithgareddau gyda'r cyfarpar cywir;
- defnyddio sancsiynau.

Mae'r rhagolwg hwn yn arwain datblygiad ein pecyn cymorth gwell rheoleiddio: cyfres integredig o adnoddau ymarferol ar y we ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio.

Er mwyn annog trafodaeth ynglŷn â'r amgylchedd rheoleiddio, bu i ni gyhoeddi pamffled *Better Local Regulation - New Approaches to Securing Compliance* ym mis Tachwedd 2009. Mae'n cynnwys cyfraniadau gan y BRE, CBI, HSE, LGA, NAO a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

### Gweithgareddau

Ein gwaith yw sicrhau bod gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol yn rheoleiddio busnesau yn effeithiol ym meysydd: iechyd yr amgylchedd, diogelwch tân, trwyddedu a safonau masnach.

Yn benodol, ein gorchwyl yw cwtogi ar fân reolau i gwmnïau sy'n ufuddhau'r gyfraith, er mwyn galluogi'r gwasanaethau rheoleiddio i ganolbwyntio'n fwy ar fynd i'r afael â drwgfasnachwyr sy'n peri niwed i bobl fregus a hefyd yn niweidio ein cymunedau. Ymdrechwn i'w gwneud yn haws i gynghorau roi cyngor ar y rheolau a'u gorfodi, a'i gwneud yn symlach i fusnesau eu deall.

Ffurfiwyd LBRO yn 2007 fel cwmni cyfyngedig dan berchnogaeth y llywodraeth, ac yna daeth yn gorff cyhoeddus adrannol (NDPB) â phwerau gweithredol, wrth i'r Ddeddf Sanctsiynau Rheoleiddio a Gorfodi ddod i rym ar 1 Hydref 2008. Bu i'r Ddeddf honno hefyd gyflwyno'r pwerau sy'n rhoi sail i ni ar gyfer gweithredu. Ein chwe swyddogaeth statudol allweddol yw:

- gweithredu Awdurdod Sylfaenol;
- rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar reoleiddio lleol;
- cyflwyno canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol;
- rheoli'r rhestr o flaenoriaethau gorfodi cenedlaethol;
- annog arloesedd ac arfer da;
- meithrin partneriaethau ffurfiol gyda rheoleiddwyr cenedlaethol.

Mae LBRO yn atebol i BIS drwy'r BRE, sy'n gweithredu yn unol â'i dargedau ar gyfer Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus yn 2008-11 sef:

- hybu cynhyrchiant economi'r Deyrnas Unedig;
- cyflawni'r amodau ar gyfer llwyddiant busnesau yn y Deyrnas Unedig;
- gwella perfformiad economaidd pob rhanbarth yn Lloegr, a phontio'r bwch mewn cyfraddau twf economaidd sy'n bodoli rhwng gwahanol ranbarthau.

Mae ein cylch gorchwyl yn berthnasol i bob rhan o'r Deyrnas Unedig, ond i wahanol raddau o le i le, ac felly byddwn yn cysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn briodol ar gyfer y gwahanol sefyllfaoedd cyfansoddiadol. Er enghraifft, rydym yn ymgysylltu â busnesau yn yr Alban drwy fod yn rhan o'r Grŵp Adolygu Rheoleiddio, ac yng Ngogledd Iwerddon mae ein gwaith yn seiliedig ar y Datganiad o Fwriad a gytunwyd gan yr awdurdodau lleol a'r Cynulliad.

Yng Nghymru rydym yn gweithredu ar sail cynllun busnes blynyddol ar wahân, gan ddefnyddio cyllid penodol, dan oruchwyliaeth uwch swyddog polisi penodol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda ni wrth ddatblygu dull cyson o gyflawni gwell rheoleiddio ymhob cwr o'r Deyrnas Unedig, sydd wedi'i deilwra yn unol â'r gofynion. Mae gan hyn oblygiadau o ran ffurf a naws y gweithgareddau y mae gwasanaethau rheoleiddio yn eu cyflawni mewn meysydd fel datblygu arweinyddiaeth, lledaenu arfer gorau ac ymgysylltu â chwsmeriaid drwy'r fenter Trading Places. Byddwn hefyd yn rhoi cyngor ar reoleiddio lleol i weinidogion Cymru.

Awn ati i gyflawni effeithiau go iawn, gan ystyried ein gwerthoedd craidd – canolbwyntio ar ganlyniadau, gweithredu ar sail tystiolaeth, bod yn greadigol, yn heriol ac yn gefnogol – ond byddwn wastad yn cyflwyno ein mentrau yng nghyd-destun y darlun ehangach. Er bod gwasanaethau rheoleiddio yn cyfrannu'n helaeth at greu cymunedau bywiog sy'n aml yn cystadlu â'r goreuon yn groes i ddisgwyliadau, maent yn gyfrifol am ychydig llai nag 1% o wariant awdurdodau lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae ein gwaith yn rhan annatod o'r hyn y mae awdurdodau lleol yn ei gyflawni wrth fynd ati i hybu ffyniant.

Yn bennaf, mae angen sicrhau bod busnesau'n cael eu creu, yn goroesi ac yn datblygu drwy annog buddsoddiad, arloesedd a chynhyrchiant, a hyrwyddo cyfleoedd caffael. Mae sawl elfen i'r gorchwyl cyffredinol hwn: nid oes un ffordd bendant o symud ymlaen.

Adolygir ein gwaith prosiect yn ystod 2009-10 yn yr adran ar berfformiad ar dudalennau 13 hyd 22.

Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu fel sefydliad. Aethpwyd ati i ymgorffori ymhellach y polisïau a'r gweithdrefnau adnoddau dynol a luniwyd yn 2008-09, a sefydlwyd fforwm staff i gasglu barn ac adborth.

## Trefn lywodraethol

Mae ein trefn lywodraethol yn seiliedig ar y datganiad rheoli a gytunwyd gyda BIS ar y cychwyn - ac sydd yn pennu'r fframwaith weithredu yn gyffredinol - yn ogystal â pholisïau unigol LBRO. Byddwn hefyd yn ystyried ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, y Comisiwn Hapchwarae a'r Swyddfa Masnachu Teg. Llofnodwyd y memoranda hynny oll yn 2009-2010, yn unol â gofynion Deddf Gorfodi Rheoleiddio a Sancsiynau 2008. Rydym wrthi'n cwblhau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch.

### Y Bwrdd

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn penodi Bwrdd annibynnol sy'n gyfrifol am gyfarwyddo LBRO yn gyffredinol. Roedd naw aelod ar y Bwrdd ar 31 Mawrth 2010: wyth aelod anweithredol (sy'n cynnwys y Cadeirydd) ac un aelod *ex officio* (y Prif Weithredwr). Maent oll yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Gorau Trysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus, ynghyd ag egwyddorion Nolan ar gyfer safonau mewn bywyd cyhoeddus.

Mae aelodau'r Bwrdd yn gweithio fel llysgenhadon dros LBRO, ac yn ymgysylltu ag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid ar y lefelau uchaf. Er enghraifft, roedd trafodaethau â chymdeithasau masnach yn arbennig o gynhyrchiol yn 2009-10. Drwy gynnal cyfarfodydd un-i-un, bu i aelodau'r Bwrdd gael dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar sectorau busnes o ran rheoleiddio lleol, a chafwyd cyfle hefyd i amlygu buddion posibl ein mentrau yn y cyd-destun hwnnw. Ar ôl sicrhau ymrwymiad cadarn at gyfranogiad ar y lefelau uchaf, aeth y swyddogion gweithredol ati i weithio'n agos gyda'r rhanddeiliaid hynny wrth ddatblygu ein prosiectau. Lluniwyd trefn wahanol ar gyfer Awdurdod Sylfaenol a Trading Places, er mwyn cynorthwyo aelodau cymdeithasau masnach i gyflawni gwell canlyniadau rheoleiddio.

Mae'r Bwrdd yn cydweithredu i ddarparu arbenigedd ar y pedair elfen o'r drefn lywodraethol:

- arweinyddiaeth a gallu;
- perfformiad a rheolaeth;
- rheoli risg;
- craffu.

Mae'r aelodau anweithredol unigol yn canolbwyntio ar feysydd penodol, gan herio a rhoi cyfarwyddyd fel y bo'r gofyn:

	Portffolio	Dyddiad penodi / adnewyddu
Clive Grace, Cadeirydd		01/06/2007 / 01/06/2012
Robin Dahlberg	Arfer Gorau	01/09/2007 / 01/09/2010
Uday Dholakia OBE	Busnesau Bach a Chanolig, Ewrop ac Amrywiaeth	01/09/2007 / 01/09/2010
Michael Gibson CBE	Yr Alban a Gogledd Iwerddon	01/09/2007 / 01/09/2010
Ann Hemingway CBE	Cymru	01/09/2007 / 01/09/2010
Robert Leak	Safon Fyd-eang	01/09/2007 / 01/09/2010
Rebecca Marsh	Busnesau Bach a Chanolig, Ewrop ac Amrywiaeth	01/09/2007 / 01/09/2010
David Thurston	Awdurdod Sylfaenol	01/09/2007 / 01/09/2010

Noder: Roedd Robin, Robert a David yn gweithio ar gytundebau dwy flynedd ar y cychwyn. Estynnwyd y cytundebau hynny o flwyddyn ar 1 Medi 2009, fel eu bod yn unol ag aelodau eraill y Bwrdd (ac eithrio'r Cadeirydd).

Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn ffurfiol sawl gwaith y flwyddyn. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus blynyddol LBRO am y tro cyntaf yn Birmingham ar 8 Medi 2009.

## Tîm Gweithredol


Mae tîm gweithredol LBRO yn un clòs a thra medrus sy'n cyflawni gweledigaeth a strategaeth y Bwrdd, ac yn darparu'r wybodaeth ofynnol sy'n sail ar gyfer penderfyniadau. Rhennir y personél mewn gwahanol gronfeydd adnoddau, fel y dengys Ffigwr 2. Wrth fynd ati i gyflawni ein hagenda cyffredinol, rydym hefyd yn gweithio'n aml gydag arbenigwyr cysylltiol mewn meysydd perthnasol. Yr Uwch Dîm Rheoli sy'n gyfrifol am reoli gweithrediadau beunyddiol, a oedd â phum aelod ar 31 Mawrth 2010:

Graham Russell	Prif Weithredwr
Sarah Smith	Cyfarwyddwr Cyflawni
Claire Bridges	Cyfarwyddwr Polisi ac Ymgysylltu
Swydd Wag	Cyfarwyddwr Gwella Gwasanaeth
Wendy McVey	Cyfarwyddwr Strategaeth Gorfforaethol a Chefnogi'r Bwrdd
Richard Wilson	Cyfarwyddwr Adnoddau

Bu i Jane Martin, Cyfarwyddwr Polisi ac Ymgysylltu, ymddiswyddo ym mis Rhagfyr 2009, ac yn ei lle penodwyd Claire Bridges, sydd ar secondiad o IDeA.

Bu i Carol Brady, Cyfarwyddwr Gwella Gwasanaeth, ymddiswyddo ym mis Ionawr 2010 ac yn ei lle penodwyd Rob Powell ym mis Ebrill 2010.

Mae Wendy McVey ar secondiad o HSE.



*Ffigwr 2: Cronfeydd adnoddau LBRO*

Ceir bywgraffiadau cryno ar gyfer aelodau'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli ar ein gwefan, [www.lbro.org.uk](http://www.lbro.org.uk), ynghyd â'r Gofrestr o Fuddiannau.

## Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am faterion sydd a wnelo â gweithdrefnau cyfrifo, adroddiadau ariannol, dulliau rheoli mewnol a rheoli risg. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n unol â'i gylch gorchwyl a Llawlyfr Archwilio Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae'n cwrdd yn ffurfiol o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Ar 31 Mawrth 2010, roedd ganddo dri aelod:

Robin Dahlberg	Aelod Bwrdd / Cadeirydd
Ann Hemingway	Aelod Bwrdd
Robert Leak	Aelod Bwrdd

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn gwahodd aelodau eraill o'r tîm gweithredol i gyfarfodydd (gan gynnwys y Swyddog Cyfrifyddu a'r Cyfarwyddwr Adnoddau), ynghyd â'r noddwr, swyddogion archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

## Polisiâu a Datganiadau Polisi

Rydym wedi llunio polisiâu corfforaethol ar gyfer sawl maes allweddol. At ei gilydd, maent yn:

- egluro ein dull sylfaenol o weithio;
- egluro agweddau allweddol ar gydymffurfiaeth;
- nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau;
- nodi'r prif weithdrefnau adrodd.

## Risg

Gan mai sefydliad bach ydym sy'n gweithredu sawl rhaglen, mae rheoli risg yn effeithiol yn hanfodol wrth gyflawni ein tri amcan strategol. Mae'n enwedig o bwysig nodi risgiau yn briodol, a'u gwerthuso cyn gynted ag y bo modd. Hyrwyddir diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth o risg, ac mae rheolwyr yn gyfrifol am annog arfer da o fewn eu timau eu hunain. Y Bwrdd sy'n bennaf gyfrifol am reoli risg a phennu'r awydd am risg. Mae'r Datganiad Rheolaeth Fewnol ar dudalennau 38 hyd 42 yn cynnwys mwy o fanylion am ein hagwedd at risg. Ceir gwybodaeth hefyd ynghylch trin data. Ni chafodd LBRO unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol yn 2009-10.

## Yr Amgylchedd

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau moesegol, ac yn ymroi i greu a chynnal amgylchedd nad yw'n peryglu galluoedd nac anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Gyda golwg ar hynny, rydym yn ymroi i'r arfer gorau wrth waredu defnyddio a datblygu dulliau o ddatblygu ynni a rheoli gwastraff. Er enghraifft, anogir pobl yn gryf i ddefnyddio cludiant cyhoeddus, cyflwynwyd cynllun rhannu car, gosodwyd y goleuadau yn ein swyddfeydd fel eu bod yn diffodd yn awtomatig pan nad oes neb yn symud oddi tanynt, ac fe gaiff yr holl bapur nad oes mo'i angen ei gasglu ar gyfer ailgylchu. Ein nod yw adlewyrchu gweledigaeth y llywodraeth o gynladwyedd, fel y bo hynny'n bosibl. Rydym yn bwriadu monitro effeithiolrwydd ein dulliau rheoli, yn ogystal ag effaith amgylcheddol LBRO, er mwyn meithrin diwylliant o welliant parhaus.

## Cwynion

Rydym yn anelu at ddatrys pob cwyn yn gyflym. Byddwn yn cydnabod cwyn o fewn pum diwrnod gwaith o'i derbyn ac yn ymateb i gŵyn fel y bo'n bosibl o fewn 10 diwrnod, gan nodi camau gweithredu a gymerwyd gennym neu y byddwn yn eu cymryd o ganlyniad. Os na allwn ymateb i gŵyn o fewn yr amserlen hon, bydd y sawl a wnaeth y gŵyn yn cael ei hysbysu o unrhyw oedi, yn cael ei hysbysu o gynnydd, ac yn cael gwybod pryd y gall



ddisgwyl ymateb llawn. Os bydd y sawl a wnaeth y gŵyn yn parhau i fod yn anfodlon, gellir ei drosglwyddo at sylw'r Prif Weithredwr, yna'r Bwrdd, ac yn y pen draw, Ombwdsmon y Senedd a'r Gwasanaeth Iechyd.

### **Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

Rydym yn ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal ac amrywiaeth i bob aelod o staff a phob darpar aelod o staff. Ni fyddwn yn gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, tarddiad ethnig na chenedl, anabledd, crefydd neu gred, tueddiad rhywiol, statws priodasol/partneriaeth sifil, nac oedran. Mae asesiadau at ddibenion recriwtio, dethol, hyfforddiant a datblygiad gyrfa yn seiliedig yn gyfan gwbl ar allu ac addasrwydd yr unigolyn i wneud y gwaith. Rydym yn ymrwymo i sicrhau cyfleoedd i bob aelod o staff er mwyn datblygu eu sgiliau i'r eithaf a gwireddu eu potensial, gan gynnig trefniadau gweithio hyblyg lle bynnag y bo'n bosibl. Rydym hefyd yn ymrwymedig i hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl ag anabledd, gan addasu trefniadau gweithio fel y bo'n rhesymol. Rydym yn annog gweithlu amrywiol ac yn ceisio darparu amgylchedd gwaith lle mae pob aelod o staff ar bob lefel yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, lle nad yw gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu yn cael eu goddef.

### **Rhyddid gwybodaeth**

Rydym yn ymrwymo i egwyddorion rhyddid gwybodaeth. Dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ceir hawl gyffredinol i gael mynediad i'r wybodaeth a gedwir gennym, gan hyrwyddo mwy o dryloywder ac atebolrwydd, a hwyluso dealltwriaeth well o'r hyn a wnawn a'r ffordd rydym yn gwario arian cyhoeddus. Rydym yn cadarnhau ein cydnabyddiaeth o 'hawl y cyhoedd i wybod' a byddwn yn gweithredu system ar y sail bod gwybodaeth yn agored oni bai bod rheswm dilys i gyfyngu ar fynediad. Rydym yn cadw rhestr ar ein gwefan o'r holl gwestiynau sy'n cael eu holi dan y Ddeddf, ynghyd ag ymatebion LBRO iddynt.

### **Lechyd a diogelwch**

Ein nod yw gweithredu'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol i atal anafiadau, afiechyd, difrod a cholled sy'n deillio o'n gweithgareddau, yn ogystal â chydymffurfio'n llawn â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Ein polisi yw cynnal a chadw amgylchedd diogel, sy'n cynnwys cyfarpar ac offer; gweithdrefnau gweithio, argyfwng a chyflwyno adroddiadau; ymwybyddiaeth staff, hyfforddiant a goruchwyliaeth; a gwerthuso. Ymgynghorir â staff yn barhaus am faterion sy'n gysylltiedig â'u hiechyd a diogelwch yn y gwaith. Rydym hefyd wedi penodi marsialiaid tân a swyddogion cymorth cyntaf.

### **Salwch**

O ran absenoldeb salwch, canran y diwrnodau gweithio a gollwyd yn 2009-10 oedd 2 y cant, neu bedwar diwrnod a hanner fesul aelod o staff. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd ar gyfer y sector cyhoeddus, sef 9.7 diwrnod y flwyddyn fesul aelod o staff.

### **Talu cyflenwyr**

Er mwyn cwtogi ar gostau a gwella gwybodaeth reoli, bu i LBRO gomisiynu system ariannol fewnol ar 1 Ebrill 2009, a chyn hynny comisiynwyd asiantaethau allanol i brosesu anfonebau a thalu credydwyr. Ein nod yw cydymffurfio â thargedau cyfredol y Llywodraeth ar gyfer talu credydwyr, gan anelu at dalu'n pob credydwr ymhen wyth diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr anfoneb. Llwyddwyd i wneud hynny mwy nag 83% o'r amser yn 2009-10 (a mwy na 98% yn chwe mis olaf y flwyddyn honno).

## **Y Fantolen a'r canlyniadau am y flwyddyn**

Lluniwyd cynllun busnes LBRO ar gyfer 2009-10 gyda'r nod o gyflawni ei amcanion statudol a strategol, yn y flwyddyn ariannol lawn gyntaf ers dod yn NDPB statudol.

### **Cyfarwyddyd Cyfrifon**

Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd Ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau (Busnes, Arloesedd a Diwygio Rheoleiddio, gynt) gyda chydysniad Trysorlys Ei Mawrhydi, ac yn unol â Deddf Gorfodi Rheoleiddio a Sancsiynau 2008. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno ac archwilio cyfrifon ar gyfer y cyfnodau ar ôl 1 Hydref 2008.

### **Cymharu â'r flwyddyn flaenorol**

O ganlyniad i Ddeddf Sancsiynau Rheoleiddio a Gorfodi 2008, mae'r ffigyrau cymharol ar gyfer 2008-09 ond yn berthnasol i'r cyfnod o chwe mis ar ôl 1 Hydref 2008. Cyflwynir ffigyrau ar gyfer y cyfnod blaenorol yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

### **Cyllid**

Mae LBRO yn derbyn y rhan fwyaf o'i incwm ar ffurf cymorth grant gan BIS. Dosrannwyd £4.1 miliwn yn 2009-10, a thynnwyd i lawr £200,000 yn ychwanegol o ddsoraniad 2010-11 ar ddiwedd mis Mawrth 2010, er mwyn sicrhau llif arian parod wrth i ni drafod â'r noddwr ynglŷn â chwblhau'r cynllun corfforaethol, ac er mwyn talu am orwariant a disgwylir, yn ogystal ag unrhyw gyfnodau o oedi cyn derbyn incwm 'masnachol'.

Bu i Lywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu LBRO i weithredu prosiectau rheoleiddio penodol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r cynllun busnes a gytunwyd ag LBRO. Derbyniwyd cyfanswm o £300,000 am gyflawni'r rhaglen waith hon.


Yn ogystal â'r grantiau a roddwyd dan raglen LBRO ar gyfer cydlynu rhanbarthol, buom hefyd yn gweinyddu'r gwaith o ddsorbarthu £97,000 ymhlith gwasanaethau rheoleiddio'r awdurdodau lleol hynny sy'n ymwneud â'r gwaith rhanbarthol, ar ran Cyfarwyddiaeth Polisi Defnyddwyr a Chystadleuaeth BIS. Mae'r grantiau a roddwyd yn rhan o'r cyfrif gwariant net.

### **Canlyniadau am y flwyddyn**

Roedd diffyg gweithredol net o £3,985,600 ar gyfer y cyfnod o 12 mis hyd 31 Mawrth 2010. Derbyniwyd cyfanswm o £4,300,000 mewn cymorth grant gan y noddwr. Roedd gwarged net o £314,400 gan gynnwys cyllid ychwanegol. Hefyd, aeth £145,800 o wariant cyfalaf ar asedau anghyfyrrdadwy, ar gyfer Cam 2 cronfa ddata Awdurdod Sylfaenol. Felly, ar ôl rhoi cyfrif am wariant cyfalaf a thynnu i lawr y cymorth grant yn gynnar, daw'r gwarged net yn ddiffyg net o £31,375.

Mae LBRO wedi llunio cynlluniau ariannol cadarn ar gyfer 2010-11 er mwyn rheoli'r diffyg hwn a gostwng y cymorth grant, er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn medru parhau i gyflawni ei amcanion craidd.

Dengys Ffigur 3 y dadansoddiad o gyfanswm y gwariant o'r cyfrif gwariant net, ynghyd â llog ar brydlesi ariannol a gwariant cyfalaf, sy'n rhoi cyfanswm o £4,554,216.



*Ffigwr 3: Cyfanswm gwariant LBRO yn 2009-10*

Mae'r Fantolen ar 31 Mawrth 2010 yn dangos rhwymedigaethau net o £473,600 o ran y gronfa gyffredinol wrth gefn. Mae asedau anghyfredol o £449,190 hefyd yn ffurfio cyfran arwyddocaol o'r datganiad ariannol.

Mae BIS wedi ein cynghori y bydd gofyn arbed 6.3% ar ein cyllideb yn ystod 2010-11. Rhagwelwn y gallwn gyflawni'r gostyngiad hwn wrth barhau i dalu rhwymedigaethau pan maent yn ddyledus. Ceir rhywfaint o ansicrwydd a allai effeithio ar gyllid yn y dyfodol. Bu i gyllideb frys y Canghellor ar 22 Mehefin nodi toriadau ychwanegol ymhob rhan o'r sector cyhoeddus, a gwyddom hefyd bod BIS yn ymateb i gais gan Swyddfa'r Cabinet i adolygu ei Gyrff Hyd Braich, ynghyd â'r holl Adrannau. Pan gyhoeddwyd yr adroddiad hwn, fodd bynnag, roeddem yn fodlon ei bod yn briodol o hyd i baratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

## Archwilwyr

Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wedi archwilio'r datganiadau ariannol. Roedd yr archwiliad statudol yn costio £23,750, ac roedd a wnelo £4,000 o hynny â'r gwaith ychwanegol oedd yn ofynnol ei gyflawni wrth drosglwyddo i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Hyd y gwn i fel Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac rwyf wedi cymryd yr holl gamau er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilydd yr LBRO yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Adroddiad ar Dâl



### Polisi tâl

Mae polisi LBRO ar dâl uwch reolwyr yn rhan o'r polisi cyflogau ar gyfer y sefydliad cyfan.

Pennir cyflogau ac amodau a thelerau eraill ar gyfer staff y sefydliad ar bob graddfa er mwyn:

- adlewyrchu'r angen i recriwtio pobl â chymwysterau priodol, eu cadw a'u cymell fel y gallant gyflawni eu gwahanol gyfrifoldebau;
- gwobrwyo pobl yn deg am eu cyfraniad at gyflawni amcanion y sefydliad;
- cydymffurfio â tharged y Llywodraeth.

Pennir tâl y Prif Weithredwr yn unol â'r egwyddorion uchod. Rhaid i BIS gymeradwyo tâl y Prif Weithredwr.

### Cytundebau gwasanaeth

Penodir uwch reolwyr LBRO yn ôl eu gallu ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Oni ddywedir yn wahanol isod, mae'r uwch reolwyr y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt wedi'u penodi yn llawn amser fel swyddogion LBRO. Yn eithriad i hynny mae Wendy McVey, a benodwyd ar 16 Mawrth 2009 ar secondiad o ddwy flynedd o'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch, a Claire Bridges, a benodwyd ar 11 Ionawr 2010 ar secondiad o ddwy flynedd o'r Asiantaeth Gwella a Datblygu. Y cyfnod rhybuddio ar gyfer terfynu'r swyddi yw tri mis.

Mae Tabl 1 yn dangos tâl y Prif Weithredwr, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r Bwrdd yn ystod y cyfnod hwn. Caiff yr wybodaeth ei archwilio fel rhan o'r archwiliad o'r cyfrifon blynyddol.

Cyfnod rhybuddio o dri mis sydd gan y swyddogion gweithredol a restrir yn Nhabl 1. Cyflogir y cyfarwyddwyr anweithredol ar gytundebau cyfnod sefydlog tan 1 Medi 2010, a diwygiwyd rhai cytundebau cychwynnol o ddwy flynedd fel eu bod yn cydymffurfio â chytundebau tair blynedd gweddill yr aelodau, ac eithrio'r Cadeirydd sydd ar gytundeb pum mlynedd.

### Cyflog

Mae 'Cyflog' yn cynnwys cyflog sylfaenol ac unrhyw lwfansau eraill sydd yn drethadwy yn y Deyrnas Unedig. Talwyd bonws i ddau gyfarwyddwr.

Bydd y Bwrdd yn adolygu perfformiad y Prif Weithredwr yn ôl yr amcanion a bennir ar ddechrau'r flwyddyn, ac yn penderfynu ynghylch unrhyw godiadau cyflog cyfunol a thaliadau bonws.

Telir bonws i gyfarwyddwyr ar sail canlyniadau eu gwerthusiadau blynyddol, ynghyd â'r canllawiau ar gylch cyflog y Llywodraeth.

## Buddion mewn da

Mae gwerth ariannol buddion mewn da yn cynnwys unrhyw fuddion y mae'r cyflogwr yn eu darparu, ac y mae Cyllid a Thollau eu Mawrhydi yn eu trin fel enillion trethadwy. Ni chafodd unrhyw aelod o'r Bwrdd na Chyfarwyddwr unrhyw fuddion mewn da yn ystod y cyfnod hwn.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac mae'r holl gyfarwyddwyr yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir dau gynllun buddion diffiniedig ar sail 'cyflog cyfartalog' (NUVOS a Partnership), a gall y cyfarwyddwyr ddewis bod yn aelodau o'r naill neu'r llall. Ni chaiff y cynlluniau eu hariannu, ac mae'r Senedd yn talu costau unrhyw fuddion bob blwyddyn.

Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn gymwys i fod yn aelodau o gynllun pensiwn.

Ceir mwy o wybodaeth yn y nodiadau ar y datganiadau ariannol, a mwy o wybodaeth am drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar eu gwefan ([www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk)).

**Tabl 1: Adroddiad ar dâl – y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010**

		Dyddiad penodi	Cyflog/tâl	Bonws	Cyfanswm ar gyfer y cyfnod	Cyfnod chwe mis blaenorol <sup>(5)</sup>
(Figurau mewn miloedd o bunnau)						
<b>Gweithredol</b>						
Prif Weithredwr	Graham Russell	3/9/07	90-95	0-5	95-100	45-50
Cyfarwyddwr	Jane Martin	01/10/2007 tan 24/12/09	70-75	-	70-75	40-45
Cyfarwyddwr	Claire Bridges <sup>(1)</sup>	11/1/10	10-15	-	10-15	n/a
Cyfarwyddwr	Carol Brady	01/10/2007 tan 15/1/10	65-70	-	65-70	40-45
Cyfarwyddwr	Sarah Smith	29/10/07	65-70	0-5	70-75	40-45
Cyfarwyddwr	Wendy McVey <sup>(1)</sup>	16/3/09	55-60	-	55-60	0-5
Cyfarwyddwr	Richard Wilson	29/10/07	55-60	-	55-60	30-35
<b>Anweithredol</b>						
Cadeirydd <sup>(2)</sup>	Clive Grace	1/6/07	45-50	-	45-50	20-25
Aelod Bwrdd <sup>(3)</sup>	Robin Dahlberg	1/9/07	20-25	-	20-25	10-15
Aelod Bwrdd <sup>(3)</sup>	Uday Dholakia	1/9/07	20-25	-	20-25	10-15
Aelod Bwrdd <sup>(3)</sup>	Michael Gibson	1/9/07	20-25	-	20-25	10-15
Aelod Bwrdd <sup>(3)</sup>	Ann Hemingway	1/9/07	20-25	-	20-25	10-15
Aelod Bwrdd <sup>(4)</sup>	Robert Leak	1/9/07	10-15	-	10-15	10-15
Aelod Bwrdd <sup>(3)</sup>	Rebecca Marsh	1/9/07	20-25	-	20-25	10-15
Aelod Bwrdd <sup>(3)</sup>	David Thurston	1/9/07	20-25	-	20-25	10-15

Nodiadau:

(1) Ar secondiad

(2) 80 diwrnod y flwyddyn

(3) Talwyd am hyd at 40 diwrnod y flwyddyn

(4) Talwyd am hyd at 32 diwrnod y flwyddyn; talwyd y cyflog i'r cyflogwr, Bwrdeistref Enfield Llundain

(5) Cyfnod blaenorol o chwe mis o Hydref 2008 tan 31 Mawrth 2009

## Hawliau pensiwn

Mae Tabl 2 yn dangos yr hawliau pensiwn hynny a fuasai'n cael eu talu'n flynyddol pe bai rhywun yn ymddeol ar ôl gwasanaethu tan 31 Mawrth 2010, gan gynnwys gwerth y blynyddoedd ychwanegol y mae aelodau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Rhoddir y dewis i aelodau'r cynllun pensiwn dalu cyfraniadau ychwanegol o'u gwirfodd ond nid oes yr un o'r unigolion yn y tabl yn dewis gwneud hynny ar hyn o bryd.

**Tabl 2: Hawliau pensiwn – y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010**

	Band cyflog	Cynnydd go iawn mewn buddion pensiwn sydd wedi cronni erbyn 60 oed	Pensiwn sydd wedi cronni erbyn 60 oed ar 31 Mawrth 2010 a'r cyfandaliad cysylltiedig	CETV ar 1 Ebrill 2009	CETV ar 31 Mawrth 2010	Cynnydd go iawn mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<b>Gweithredol</b>		2.5-5.0	45-50			
Graham Russell	90 - 95	Dim cyfandaliad	Dim cyfandaliad	441	502	29
Jane Martin	70 - 75	Dim cyfandaliad	Dim cyfandaliad	301	336	16
Carol Brady	65 - 70	Dim cyfandaliad	Dim cyfandaliad	21	34	9
Sarah Smith	65 - 70	Dim cyfandaliad	Dim cyfandaliad	116	139	13
Richard Wilson	55 - 60	Dim cyfandaliad	Dim cyfandaliad	20	35	12

Caiff y tablau hyn eu harchwilio.

## Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfartal ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg arbennig yn ôl asesiad yr actwari. Y buddion prisiedig yw buddion wedi'u cronni gan yr aelodau ac unrhyw bensiwn priod dibynnol yn daladwy o'r cynllun. Gwneir taliad CETV gan gynllun pensiwn neu drefniant i ddiogelu budd-daliadau pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r budd-daliadau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei wasanaeth fel gwas sifil, nid dim ond ei wasanaeth mewn uwch swydd y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau CETV yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniant Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac y mae Pleidlais y Gwasanaeth Sifil wedi derbyn taliad trosglwyddo sy'n gymesur â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol yr ymgwymerir â hwy. Cyfrifir CETV o fewn canllawiau a fframwaith a bennwyd gan Sefydliad ac Adran yr Actiwariaid.

## **Gwir gynnydd mewn CETV**

Mae'r gwir gynnydd mewn CETV yn adlewyrchu'r cynnydd a ariennir, i bob pwrpas, gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronedig sy'n seiliedig ar chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau a diwedd y cyfnod ariannol.




Graham Russell,  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu  
LBRO

30 Mehefin 2010

**Datganiadau ariannol  
ar gyfer y cyfnod  
1 Ebrill 2009 tan  
31 Mawrth 2010**



**Y Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli**



**Cyfeiriad Cofrestredig**

2nd Floor East  
The Axis  
10 Holliday Street  
Birmingham  
B1 1TG

**Archwilwyr Allanol**

Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol  
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol  
157-197 Buckingham Palace Road  
Victoria  
Llundain  
SW1W 9SP



## **Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol a'r Prif Weithredwr**

Dan baragraffau 13 (2) a 13 (3) Atodlen 1 o Ddeddf Sanesiynau Rheoleiddio a Gorfodi 2008, mae'n ofynnol i'r LBRO baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chydysyniad Trysorlys Ei Mawrhydi. Paratwir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r LBRO ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a'i wariant, enillion a cholledion cydnabyddedig, a'i lifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r LBRO a'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y corff yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa'r Cabinet wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer LBRO. Nodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdanynt, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau'r Awdurdod, fel y nodwyd yn y Memorandwm i'r Swyddogion Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*.

## **Datganiad Rheolaeth Fewnol**

### **Cwmpas cyfrifoldeb**

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion LBRO, wrth ddiogelu'r cyllid cyhoeddus ac asedau LBRO yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*.

Rwyf yn atebol i'r Bwrdd am sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risgiau. Y Bwrdd sydd â'r prif gyfrifoldeb dros systemau rheolaeth fewnol LBRO, a thros adolygu ei effeithiolrwydd, ac adolygu'r polisi a'r strategaeth risgiau. Mae'r Pwyllgor Archwilio, is-bwyllgor y Bwrdd, yn fy nghynghori ar ddigonolrwydd y trefniadau archwilio a'r sicrwydd mewn perthynas â rheoli risg a rheolaeth fewnol.

### **Diben y system rheolaeth fewnol**

Cynllunnir y system rheolaeth fewnol i reoli risg yn rhesymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion LBRO, gwerthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny'n codi a'r effaith pe baent yn codi, a'u rheoli mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus. Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith yn LBRO ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau'r Trysorlys.

### **Y gallu i ymdrin â risg**

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn gweithredu fel hyrwyddwyr risgiau ar gyfer LBRO. Fy rôl yw sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n gadarn ac yn effeithiol, ac mae hyn yn tanategu'r holl bolisïau a gweithdrefnau. Defnyddir y broses o gynllunio a chyllidebu i bennu amcanion, cytuno ar gamau gweithredu, a dosrannu adnoddau, ac mae cynnydd yn cael ei asesu'n rheolaidd. Caiff risgiau allweddol eu monitro a'u rheoli drwy strwythur cyflwyno adroddiadau cynhwysfawr. Gwneir penderfyniadau ynghylch unioni problemau yng nghyfarfodydd rheolaidd y uwch dîm rheoli a'r Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am leihau amlygrwydd LBRO i risg a hyrwyddo'r diwylliant rheoli risg. Mae Pennaeth Adnoddau a Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am sicrhau bod mesurau priodol i nodi, sgorio, monitro a rheoli risg ar waith, eu bod yn effeithiol, ac yn addas at y diben. Gofynnwyd i reolwyr adrodd yn ôl ar reoli risgiau drwy gyflawni pethau yn rheolaidd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y gwaith o reoli risgiau yn cael ei wreiddio fel rhan o system ragweithiol o reoli risgiau.

### **Y fframwaith risg a rheoli**

Mae LBRO yn delio'n effeithiol â rheoli risg. Mae polisi arweiniol yn egluro'r dull ac yn nodi'r prif weithdrefnau adrodd yn ôl. Ar lefel y Bwrdd, caiff risgiau corfforaethol eu hadolygu, caiff cyfleoedd eu nodi a chaiff dulliau rheoli eu hasesu. Mae'n amlwg bod yr awydd am risg yn amrywio yn ôl y risgiau unigol, a gwelir bod gweithgareddau fel Awdurdod Sylfaenol a'r drefn lywodraethol â llai o awydd am risg (neu'n goddef llai o risg) nag eraill.

Mae cyfrifoldeb yn rhaeadru drwy'r sefydliad, gyda staff yn rheoli risgiau penodol a allai effeithio ar eu hamcanion a'u targedau. Mae arweinwyr rhaglenni yn creu ac yn cynnal eu cofrestris risg eu hunain. Mae Bwrdd Rheoli Rhaglenni yn archwilio risgiau'r rhaglenni. Bydd risgiau y nodir eu bod yn gyffredin i nifer o feysydd o fewn rhaglen neu o bwys digonol yn cael eu hystyried i'w cynnwys ar y gofrestr risgiau corfforaethol. Mae'r Grŵp Rheoli Risg yn cymedrolï'r risgiau, ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar sail hynny.

Nid yw LBRO yn gweithredu diwylliant gwrth-risg. Er mwyn gweithredu agenda heriol, rhaid cymryd risgiau. Fodd bynnag, rwy'n ei gwneud yn ofynnol bod y risgiau'n cael eu gwerthuso a'u rheoli'n briodol. Drwy wneud hynny, rwy'n disgwyl ymateb cytbwys.

Mae elfennau allweddol fframwaith risgiau a rheolaeth LBRO fel a ganlyn:

- Caiff risgiau eu rheoli yn unol ag arfer gorau.
- Mae proses systematig ar gyfer nodi, monitro a rheoli risgiau sylweddol y bydd LBRO yn eu hwynebu wrth weithredu ei amcanion a'i agenda.
- Caiff risgiau gweddilliol eu nodi, a llunnir cynlluniau gweithredu er mwyn lliniaru arnynt.
- Caiff risgiau eu hychwanegu at y cofrestris corfforaethol a lleol gan amrywiaeth o ffynonellau.
- Cynhelir adolygiadau gyda pherchnogion risgiau yn unol ag amserlenni'r Bwrdd, er mwyn asesu perthnasedd y risgiau, a chryfder a digonolrwydd eu dulliau rheoli.
- Bydd gweithdrefnau a chanllawiau ariannol a rheoli yn cael eu dogfennu'n glir.
- Caiff systemau cyllidebu ac adroddiadau ariannol eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a fydd hefyd yn cytuno arnynt.
- Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ar bob mater sylweddol.

## **Risgiau yn ystod y flwyddyn**

Bu i'r sefydliad reoli tri maes risg o bwys:

- Gofynnodd Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth i LBRO gyflwyno cyfrifon banc newydd, a gwnaethpwyd hynny ym mis Mawrth 2010 heb ymyrryd â'r gwaith o dalu anfonebau. Nid oes unrhyw risgiau gweddilliol.
- Mae LBRO yn gweithio â phartneriaid allanol yn y sector cyhoeddus ar sail incwm, sy'n gofyn am newid i'r gweithdrefnau mewnol ar gyfer rheoli risgiau sydd a wnelo â chasglu incwm, rhwymedigaethau cytundebol a risgiau i amcanion craidd.

Mae rheoli arian parod yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth, wrth sicrhau bod cyllid y noddwr ac incwm allanol yn cyrraedd mewn pryd i wireddu ymrwymadau, ac i ganiatáu LBRO i dalu cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau a chredydwyr eraill yn unol ag argymhellion y Llywodraeth. Daeth hyn yn fwy allweddol erbyn diwedd y flwyddyn, gan ein bod bryd hynny yn disgwyl cryn incwm allanol, wedi nodi ychydig o orwariant, ac yn rhagweld oedi cyn i'r noddwr ryddhau'r cyllid ar gyfer 2010-11. Sicrhawyd blaenswm o £200,000 mewn cymorth grant ar ddiwedd mis Mawrth 2010, a chanlyniad hynny oedd balans o £174,300 ar 31 Mawrth, a gaiff ei ddwyn ymlaen i 2010-11. Bydd gofyn mynd ati i reoli hyn wrth gyflawni cynllun busnes 2010-11.

## **Sicrwydd gwybodaeth**

Er mai prin yw'r wybodaeth y mae LBRO yn meddu arni sy'n bersonol neu wedi'i diogelu, mae'n cymryd sicrwydd gwybodaeth o ddifrif ac yn gofalu am ei gofnodion er mwyn diogelu unigolyn a sefydliadau, ac er lles y cyhoedd.

Bu i LBRO gwblhau dogfen ar reoli ac achredu risg ym mis Awst 2009. Roedd y ddogfen yn nodi bod angen cyflwyno cyfres o bolisiau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), a bu i'r Pwyllgor Archwilio adolygu'r rheiny.

Gwnaed dau ddarn mawr arall o waith: asesiad o gydymffurfiaeth â'r Fframwaith Polisi Diogelwch – Gofynion Gorfodol a statws LBRO yn unol â'r Model Aeddfedrwydd – Sicrwydd Gwybodaeth. Ni nodwyd unrhyw bryderon o bwys, ond bydd LBRO yn gweithio gyda'r adran noddi a'r 'teulu' ehangach er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ymhen amser rhesymol.

Aeth staff i lawer o ddigwyddiadau hyfforddiant Swyddfa'r Cabinet a'r adran noddi yn ystod y flwyddyn, ac mae chwe aelod allweddol o staff (22%) gwblhau lefelau 1 a 2 o fodiwlau hyfforddiant ar-lein yr Ysgol Lywodraethu Genedlaethol ar Ddiogelu Gwybodaeth.

Cynhaliwyd sawl prawf treiddio ar systemau allweddol, gan gynnwys y gronfa ddata Awdurdod Sylfaenol a lansiwyd ym mis Ebrill 2009. Ni chanfuwyd unrhyw feysydd i bryderu yn eu cylch yn ystod y profion hyn.

Ni chafodd unrhyw achosion eu hadrodd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hyd yn hyn, ac ni chofnodwyd ac ni nodwyd bod unrhyw ddata personol wedi'i diogelu wedi cael ei cham-drafod yn ystod y cyfnod.

Bydd LBRO yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddyd y Llywodraeth ar y mater hwn, gan weithio'n agos gyda'r adran noddi.

## **Cyflwyno adroddiadau'r archwiliad mewnol**






Mae LBRO wedi contractio gyda gwasanaeth Archwilio Mewnol yr adran noddi er mwyn rhoi sicrwydd i'r sefydliad a'r rhanddeiliaid.

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009, mae gwasanaeth yr Archwiliad Mewnol wedi ymgymryd â nifer o adolygiadau, a grynhoir yn Nhabl 3.


Mae LBRO yn ystyried bod systemau cadarn o lywodraethu a rheoli yn angenrheidiol, ac yn tanategu ei swyddogaeth o gyflawni ei amcanion allweddol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn chwarae rhan sylfaenol yn hyn o beth, gan sicrhau bod y sefydliad yn ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau ac argymhellion ein hadroddiadau archwilio mewnol.

Roedd a wnelo'r argymhelliad mwyaf arwyddocaol yn 2008-09 ag annigonolrwydd y systemau ariannol. Roedd LBRO eisoes wedi nodi hyn fel maes i'w wella, ac wedi mynd ati i ganfod y datrysiad gorau yn unol â'i anghenion. Rwy'n falch o adrodd y bu'n bosibl i ni roi'r gorau i ddefnyddio'r darparwr taliadau allanol a sefydlu system ariannol fewnol yn lle hynny ym mis Ebrill 2009. Mae archwiliadau mewnol yn 2009-10 wedi cydnabod yr holl welliannau mewn rheolaeth a pherfformiad, yn ogystal â'r arbedion a gafwyd mewn costau.

**Tabl 3 : Crynodeb o archwiliadau mewnol**

Archwiliad Mewnol	Y farn gyffredinol	Ymateb y tîm rheoli
Systemau ariannol	 Rhai gwendidau o ran yr amgylchedd rheoli	Aethpwyd ati i wneud gwelliannau arwyddocaol i'r drefn o fonitro llif arian parod drwy sefydlu'r system gyllid fewnol. Bu i nifer y diwrnodau talu anfonebau ostwng o 13 ar gyfartaledd yn 2008/09 i 83% ymhen 8 diwrnod gwaith yn 2009/10 (98% ymhen 8 diwrnod yn y 6 mis olaf).
Adroddiadau allanol	 Rhai gwendidau o ran yr amgylchedd rheoli	Cyflwynwyd polisi cyhoeddiadau diwygiedig. Mae'r wefan yn cael ei datblygu eto i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion adrodd.
Rheoli prosiectau	 Rhai gwendidau o ran yr amgylchedd rheoli	Derbyniwyd y mân argymhellion ynglŷn ag adroddiadau amlygu prosiect a chofrestri risg.
Tendro a chaffael	 Rhai gwendidau o ran yr amgylchedd rheoli	Mae LBRO bellach wedi mireinio'r gweithdrefnau
Trin data	 Rhai gwendidau o ran yr amgylchedd rheoli	Rhoddir yr argymhellion ar waith pan fo hynny'n ymarferol a chost effeithiol, yn unol â chyngor BIS ar sicrwydd gwybodaeth.
Dilyniant	Amherthnasol	Cyflawnwyd gweithredoedd ar amser ar y cyfan.

**Allwedd**

 *Rhai gwendidau o ran yr amgylchedd rheoli – At ei gilydd, mae'r amgylchedd risg a rheolaeth yn gadarn. Ceir rhai gwendidau y dylid mynd i'r afael â hwy er mwyn lleihau risg gweddilliol i gyflawniad a/neu i wella effeithlonrwydd/effeithiolrwydd.*

Roedd pennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol o'r farn bod LBRO wedi gweithredu systemau effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg yn ystod y flwyddyn. Ni chafwyd unrhyw fethiannau rheoli o ganlyniad i wendid systemig arwyddocaol. Aethpwyd ati'n brydlon ac yn effeithiol i weithredu argymhellion yr archwiliadau ar gyfer parhau i wella rheolaeth ar hyd y flwyddyn.

## **Adolygu effeithiolrwydd**

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad yn cael ei lywio gan nifer o ffynonellau, yn bennaf gwaith yr archwilwyr mewnol annibynnol, rheolwyr gweithredol LBRO sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill

Caf fy nghynghori ar oblygiadau canlyniadau'r adolygiadau gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio. Lle y bo'n angenrheidiol yn eu barn hwy, byddant yn fy nghynghori ar ddulliau a chynlluniau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â gwendidau a nodwyd a gwella'r system yn barhaus. Byddaf yn sicrhau eu bod yn cael eu nodi'n ysgrifenedig ac yn cael eu mabwysiadu fel y bo'n briodol.

Mae unrhyw system o reolaeth fewnol yn agored i ddatblygiadau, a chredaf fod ymgysylltiad ac ymateb cadarnhaol LBRO i argymhellion yr archwiliad yn ei wneud yn gryfach. Mae hyn yn fy arwain at gasgliad, sef fod gan LBRO fframwaith ar gyfer rheoli risgiau, llywodraethu a rheolaeth sy'n rhoi sicrwydd rhesymol mewn perthynas â chyflawni ei amcanion yn effeithiol.



Graham Russell  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu  
LBRO  
30 Mehefin 2010

## **Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd**

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (LBRO) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010 dan Ddeddf Sanctsiynau Rheoleiddio a Gorfodi 2008. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfrif gwariant net, y Fantolen, y datganiad llif arian parod, y datganiad o'r newidiadau mewn ecwiti i drethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr adroddiad ar dâl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel un sydd wedi'i archwilio.

### **Priod Gyfrifoldebau'r LBRO, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd**

Mae'r Datganiad o Gyfrifoldebau LBRO a'r Prif Weithredwr yn egluro hyn yn fwy manwl, ond yn gryno mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn gywir ac yn deg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol, a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i'm staff a minnau i gydymffurfio â safonau moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer archwilwyr.

### **Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn golygu casglu tystiolaeth ddigonol am y symiau a'r datgeliadau a geir yn y datganiadau ariannol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol hynny yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed y rheiny'n cael eu hachosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hynny'n cynnwys asesu priodoldeb y polisiau cyfrifyddu ar gyfer amgylchiadau LBRO, ynghyd â'r cysondeb o ran eu cymhwyso a'r digonolrwydd o ran eu datgelu, yn ogystal ag asesu pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu o bwys y mae LBRO wedi'u gwneud, a chyflwyniad y datganiadau ariannol yn gyffredinol.

Yn ogystal â hynny, mae'n ofynnol i mi gasglu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm yr adroddir yn ei gylch yn y datganiadau ariannol wedi'i gymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### **Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, mae'r incwm a gwariant wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### **Barn ar y datganiadau ariannol**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa LBRO ar 31 Mawrth 2010 a'i ddiffyg, y newidiadau mewn ecwiti i drethdalwyr a'i lif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn gywir, yn unol â Deddf Gorfodi Rheoleiddio a Sanctsiynau 2008 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed dan y ddeddf honno.

## **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n gywir yn unol â Deddf Gorfodi Rheoleiddio a Sanctsiynau 2008 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan y ddeddf honno;
- mae'r wybodaeth a gyflwynir fel sylwadau'r tîm rheoli yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## **Materion yr adroddaf yn eu cylch fel eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion isod y buaswn yn adrodd yn eu cylch pe bawn o'r farn bod un o'r datganiadau isod yn berthnasol:

- nid oedd cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw;
- nid oedd y datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion neu'r adroddiadau cyfrifyddu;
- ni dderbyniais yr holl wybodaeth a'r eglurder sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn dangos cydymffurfiaeth â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi.

## **Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

Amyas C E Morse

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol  
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol  
157-197 Buckingham Palace Road  
Victoria  
Llundain SW1W 9SP  
2 Gorffennaf 2010



**Tabl 4: Cyfrif gwariant net**

	<i>Nodiadau</i>	<b>1 Ebr 09 tan 31 Maw 10 £</b>	<b>Chwe mis hyd 31 Maw 09 £</b>
<b>Gwariant</b>			
costau staff	4	(1,953,507)	(964,723)
dibrisiant	9, 10	(91,630)	(29,473)
eitemau eraill o wariant	5	(2,358,604)	(1,843,984)
<b>Cyfanswm gwariant</b>		<b>(4,403,741)</b>	<b>(2,838,180)</b>
<b>Incwm</b>			
incwm arall	8	422,817	4,348
<b>Cyfanswm incwm</b>		<b>422,817</b>	<b>4,348</b>
<b>Gwariant net</b>			
costau cyfalaf		(14,639)	(7,292)
llog sy'n daladwy		(4,700)	(3,632)
<b>Gwariant net ar ôl ychwanegu costau cyfalaf a llog</b>		<b>(4,000,263)</b>	<b>(2,844,756)</b>
gwrthdroi'r costau cyfalaf		14,639	7,292
<b>Diffyg ar gyfer y cyfnod</b>	23	<b>(3,985,624)</b>	<b>(2,837,464)</b>

Nodir bod holl weithgareddau'r sefydliad yn parhau.

Ceir nodiadau ar dudalennau 49 hyd 63.

**Tabl 5: Mantolen**

	<i>Nodiadau</i>	<b>31 Mawrth 2010</b>	<b>1 Mawrth 2009</b>
		£	£
<b>Aседau anghyfredol</b>			
eiddo, peiriannau ac offer	9	154,444	207,427
asedau anghyfyrdadwy	10	294,746	187,619
<b>Cyfanswm аsedau anghyfredol</b>		449,190	395,046
<b>Aседau cyfredol</b>			
symiau derbyniadwy masnachol ac eraill	13	211,029	174,886
arian parod a chyfwerth	14	174,282	466,492
<b>Cyfanswm аsedau cyfredol</b>		385,311	641,378
<b>Cyfanswm аsedau</b>		834,501	1,036,424
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>			
symiau taladwy masnachol ac eraill	15	(360,895)	(841,923)
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol</b>		(360,895)	(841,923)
<b>Aседau anghyfredol ar ôl ychwanegu/ynnu</b>			
		473,606	194,501
<b>Rhwymedigaethau anghyfredol</b>			
symiau eraill sy'n daladwy	15	-	(35,271)
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol</b>		-	(35,271)
<b>Aседau ar ôl tynnu rhwymedigaethau</b>			
		<b>473,606</b>	159,230
<b>Ecwiti i drethdalwyr</b>			
y gronfa gyffredinol wrth gefn	23	473,606	159,230
		<b>473,606</b>	159,230

Ceir nodiadau ar dudalennau 49 hyd 63.



Graham Russell  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu  
LBRO

30 Mehefin 2010

**Tabl 6: Datganiad llifau arian parod**

	<i>Nodiadau</i>	<b>1 Ebr 09 tan 31 Maw 10</b>	hyd 31 Maw 09
		<b>£</b>	<b>£</b>
<b>Llifau arian parod yn sgil gweithgareddau gweithredol</b>			
diffyg net ar ôl costau cyfalaf a llog		(4,000,263)	(2,844,756)
diwygiadau yn ôl costau'r tâl cyfalaf		14,639	7,292
cynnydd mewn symiau derbyniadwy masnachol ac eraill	13	(36,143)	(91,960)
cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau taladwy masnachol	15	(516,299)	392,053
dibrisiant a amorteiddiad		91,630	29,473
costau ariannol nad ydynt a wnelo ag arian parod		-	-
<b>All-lif arian parod net yn sgil gweithgareddau gweithredol</b>		<b>(4,446,436)</b>	<b>(2,507,898)</b>
<b>Llifau arian parod yn sgil gweithgareddau buddsoddi</b>			
prynu eiddo, peiriannau ac offer	9	-	-
prynu asedau anghyfyrdadwy	10	(145,774)	(189,593)
<b>All-lif arian parod net yn sgil gweithgareddau buddsoddi</b>		<b>(145,774)</b>	<b>(189,593)</b>
<b>Llifau arian parod yn sgil gweithgareddau ariannol</b>			
grantiau gan y rhiant-adran	7	4,300,000	2,778,599
<b>Cyllido net</b>		<b>4,300,000</b>	<b>2,778,599</b>
<b>Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod a chyfwerth yn ystod y cyfnod</b>		<b>(292,210)</b>	<b>81,108</b>
<b>Arian parod a chyfwerth ar ddechrau'r cyfnod</b>		<b>466,492</b>	<b>385,384</b>
<b>Arian parod a chyfwerth ar ddiwedd y cyfnod</b>	14	<b>174,282</b>	<b>466,492</b>

Ceir nodiadau ar dudalennau 49 hyd 63.

**Tabl 7: Datganiad o'r newidiadau mewn ecwiti i drethdalwyr**

		1 Ebr 09 tan 31 Maw 10		1 Hyd 08 hyd 31 Maw 09	
<i>Nodiadau</i>		Cyfanswm		Cronfa gyffredinol £	Cyfanswm ecwiti i drethdalwyr £
		Cronfa gyffredinol £	ecwiti i drethdalwyr £		
	<b>Balans ar ddechrau'r cyfnod</b>	159,230	159,230	236,629	236,629
	newidiadau mewn polisi cyfrifyddu	2	-	(18,534)	(18,534)
	balans wedi'i ailddatgan ar ddechrau'r cyfnod cyfrifyddu	159,230	159,230	218,095	218,095
	<b>Diffyg ar gyfer y cyfnod</b>	(3,985,624)	(3,985,624)	(2,837,464)	(2,837,464)
	grant gan y rhiant-adran	4,300,000	4,300,000	2,778,599	2,778,599
	<b>Balans ar ddiwedd y cyfnod</b>	473,606	473,606	159,230	159,230

Ceir nodiadau ar dudalennau 49 hyd 63.

**Nodiadau'r  
datganiadau ariannol  
ar gyfer y cyfnod  
1 Ebrill 2009 tan  
31 Mawrth 2010**



## **1 Datganiad o bolisiau cyfrifyddu**

### **A. Egwyddorion cyffredinol**

Mae'r datganiadau ariannol yn crynhoi trafodion y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (LBRO) ar gyfer y cyfnod o ddeuddeg mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010.

Dechreuodd LBRO fasnachu ar 3 Medi 2007 fel cwmni dan berchnogaeth lwyr y Llywodraeth, tra'n disgwyl i'r Ddeddf Sancsiynau Rheoleiddio a Gorfodi fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol. Pan ddaeth y Ddeddf honno i rym, diddymwyd LBRO a'i ail-sefydlu fel NDPB ar 1 Hydref 2008. Roedd Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i LBRO gyflwyno cyfrifon statudol o'r dyddiad hwnnw. Felly, mae'r cymariaethau â chyfnodau blaenorol yn dangos cyfnod o chwe mis ar ôl 1 Hydref 2008.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2009/10 a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi (ar gael ar wefan [www.financial-reporting.gov.uk](http://www.financial-reporting.gov.uk)). Mae'r polisiau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr yn cymhwysu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u diwygiwyd ar gyfer y sector cyhoeddus. Lle bynnag y bo'r Llawlyfr yn caniatáu rhyddid i ddewis rhwng polisiau cyfrifyddu, detholwyd y polisi cyfrifyddu a ystyriwyd ei fod fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol LBRO, er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Ceir disgrifiad isod o'r polisiau cyfrifyddu penodol y mae LBRO wedi'u mabwysiadu. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ddelio â'r eitemau y credir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### **B. Sail cyfrifyddu**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

### **C. Busnes hyfyw**

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, gan dybio y bydd LBRO yn parhau i weithredu. Mae dilysrwydd y dybiaeth hon yn dibynnu a fydd LBRO yn parhau i gael cymorth gan ei noddwr, Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS), a sicrhau cadarnhad y bydd yn cael arian ar gyfer 2010-11 a thu hwnt. Mae'r adran wedi cadarnhau y bydd gofyn i ni arbed 6.3% ar ein cyllideb yn 2010-11. Rhagwelwn y gallwn gyflawni'r gostyngiad hwn wrth barhau i dalu rhwymedigaethau pan maent yn ddyledus. Cadarnhawyd mai'r swm o arian gan BIS ar gyfer 2010-11 yw £3.71 miliwn.

At ddibenion cyfrifyddu, tybiwyd y bydd LBRO yn bodoli fel corff cyhoeddus anadrannol ar gyfer y dyfodol hyd y gellir ei ragweld, wrth gyflawni ei swyddogaethau fel y nodwyd yn y Ddeddf Sancsiynau Rheoleiddio a Gorfodi.

## **D. Grantiau'r Llywodraeth**

Mae incwm yn bennaf yn cynnwys cymorth grant gan BIS. Caiff grantiau a ddefnyddir ar gyfer gwariant refeniw eu credydu i'r cyfrif gwariant net ar gyfer yr un cyfnod â'r eitem berthnasol o wariant.

## **E. Eiddo, peiriannau ac offer**

Caiff yr holl eiddo, peiriannau ac offer eu cofnodi ar gost i ddechrau.

Caiff offer sy'n costio llai na £2,500 eu cofnodi fel gwariant yn y flwyddyn y'u prynwyd.

Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu cyfalafu ar y gost o'u caffael, gan ychwanegu unrhyw gostau megis gosod a chomisiynu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â hwy i gyflwr addas i'w defnyddio.

Prynwyd swyddfeydd parhaol, dodrefn a chyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ym mis Ionawr 2008, a'u cynnwys ar gostau. Byddwn yn ail-brisio'r rhain erbyn diwedd 2012-13, yn unol â Safonau Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS).

## **F. Asedau anghyfyrdadwy**

Cofnodir yr holl asedau anghyfyrdadwy ar gost i ddechrau.

Caiff offer sy'n costio llai na £2,500 eu cofnodi fel gwariant yn y flwyddyn y'u prynwyd.

Caiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes economaidd ddisgwyliedig o bump i saith mlynedd.

## **G. Dibrisiant**

Darperir dibrisiant ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer o'r dyddiad y'u cafwyd.

Cyfrifir dibrisiad er mwyn dileu cost ased, llai ei werth gweddilliol ar sail llinell syth dros yr oes economaidd ddefnyddiol disgwyliedig yr ased hwnnw fel y dengys Tabl 8.

<b>Tabl 8 : Cyfrifo dibrisiant ar eiddo, peiriannau ac offer</b>	
Gwella llesddaliadau	Ar hyd cyfnod y brydles – 10 mlynedd
Dodrefn a ffitiadau	5 – 10 mlynedd
Offer TG	3 – 5 mlynedd
Systemau TG	5 – 7 mlynedd

## **H. Tâl cyfalaf**

Mae tâl, sy'n adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddiwyd gan LBRO, yn cael ei gynnwys yn y Cyfrif Gwariant. Caiff y tâl ei gyfrifo yn ôl y gyfradd wirioneddol a bennwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi (3.5% ar hyn o bryd) ar symiau cario cyfartalog yr holl asedau llai atebolrwydd, ac eithrio:

- a. eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anghyffyrddadwy lle mae cost y tal cyfalaf yn seiliedig ar werth agored, a ddiwygir pro rata yn ystod y flwyddyn ar gyfer:
- ychwanegiadau ar gost
  - gwarediadau fel y'u prisiwyd yn y fantolen agoriadol (yn ogystal ag unrhyw wariant cyfalaf dilynol cyn cael gwared arnynt)
  - amhariadau ar swm y gostyngiad yn y gwerth yn y fantolen agoriadol (yn ogystal ag unrhyw wariant cyfalaf dilynol)
  - dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer ac amorteiddio asedau anghyffyrddadwy.
- b. Balansau arian parod gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, lle bo'r tâl yn sero.
- c. Balansau o fewn adrannau.

Bydd Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2010-11 yn dileu costau'r tâl cyfalaf o'r cyfrifon. Ni fydd unrhyw effaith net ar y cyfrif gwariant net.

## **I. Ymchwil**

Caiff gwariant ar ymchwil ei ddileu yn y flwyddyn y'i cyflawnir.

## **J. Prydlesi ariannol**

Mae'r asedau a gedwir dan brydlesi ariannol, sy'n brydlesi lle y bo'r rhan helaeth o'r risgiau a'r gwobrau sy'n ymwneud â pherchenogaeth o'r asedau wedi'u trosglwyddo i'r LBRO, yn cael eu cyfalafu yn y fantolen ac yn cael eu dibrisio yn ystod eu hoes fuddiol. Mae elfennau cyfalaf y goblygiadau yn y dyfodol dan y prydlesi yn cael eu cynnwys fel rhwymedigaethau ar y fantolen. Mae elfen llog y rhwymedigaeth i renti yn cael ei gynnwys ar gyfrif y gwariant net dros gyfnod y brydles ac mae'n cynrychioli cyfran gyson o falans yr ad-daliadau cyfalaf sy'n weddill.

## **K. Prydlesi gweithredu**

Caiff pethau a rentir dan brydlesi gweithredu eu cynnwys ar y cyfrif gwariant net ar sail llinell syth yn ystod cyfnod tymor y brydles.

## **L. Pensiynau**

Mae cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol yn gymwys i fod yn rhan o gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a ddisgrifir yn nodyn 4a. Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynlluniau yn cael eu hariannu ac nid ydynt yn gyfranogol ac eithrio mewn perthynas â buddion dibynyddion. Mae LBRO yn cydnabod costau disgwylidig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol yn ystod cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu symiau a gyfrifwyd ar sail gronol i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae rhwymedigaeth ar gyfer talu buddion yn y dyfodol yn dâl i'r PCSPS. Mewn perthynas ag elfennau cyfraniad diffiniedig y cynlluniau, mae LBRO yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn.

## **M. Treth ar Werth**

Nid yw LBRO yn gymwys i gofrestru at ddibenion TAW. Felly, codir TAW anadferadwy i'r categori gwariant perthnasol neu caiff ei gynnwys yng nghost gyfalafol yr asedau anghyfredol.

## N. Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol heb eu rhoi ar waith eto

Gwneir datgeliadau dim ond ar gyfer y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol newydd sy'n berthnasol, neu a fydd yn berthnasol. Nid oes unrhyw ddatgeliadau sy'n berthnasol i LBRO.

Bydd Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2010-11 yn dileu costau'r tâl cyfalaf o'r cyfrifon, a bydd hynny'n lleihau'r nifer o gofnodion a ddatgelir yn y cyfrif gwariant net a'r datganiad o lifau arian parod, ond ni fydd yn effeithio ar y diffyg ar gyfer y cyfnod. Nid oes unrhyw ddatgeliadau eraill sy'n berthnasol neu'n arwyddocaol i LBRO.

## Nodiadau ar y cyfrif gwariant net

### 2. Mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y tro cyntaf

**Tabl 9: Mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y tro cyntaf**

(Ffigurau mewn punnoedd)	Cronfa gyffredinol
Ecwiti i drethdalwyr ar 30 Medi 2008 dan Egwyddorion Cyfrifyddu'r Deyrnas	236,629
Addasiadau ar gyfer:	
gwyliu staff wedi cronni	(18,534)
Ecwiti i Drethdalwyr ar 1 Hydref 2008 dan IFRS	218,095
Ecwiti i drethdalwyr ar 31 Mawrth 2009 dan Egwyddorion Cyfrifyddu'r Deyrnas	179,188
Addasiadau ar gyfer:	
gwyliu staff wedi cronni	(19,958)
Ecwiti i Drethdalwyr ar 1 Ebrill 2009 dan IFRS	159,230
	£
Gwariant net ar gyfer 2008/09 dan Egwyddorion Cyfrifyddu'r Deyrnas Uned	(2,836,040)
Addasiadau ar gyfer:	
gwyliu staff wedi cronni	(1,424)
Gwariant net ar gyfer 2008/09 dan IFRS	(2,837,464)

### 3. Dadansoddi gwariant net fesul segment

Nid yw gweithgareddau LBRO yn destun segmentu gan ei fod yn gweithredu fel un uned, ac yn cyflawni amcanion strategol ar draws y sefydliad cyfan.

### 4. Nifer o staff a chostau cysylltiedig

**Tabl 10: Costau sy'n gysylltiedig â staff**

(Ffigurau mewn punnoedd)	1 Ebrill 09 hyd 31 Mawrth 10				1 Hyd 08 hyd 31 Maw 09
	Aelodau Bwrdd	Staff sydd â chytundeb parhaol neu dymor sefydlog	Staff ar secondiad	Staff eraill sydd â chytundebau tymor byr dros dro	Cyfanswm
Cylogau a Thâl	213,337	1,088,089	139,874	138,647	1,579,947
Costau nawdd cymdeithasol	20,469	93,631	12,459	-	126,559
Costau pensiwn eraill	-	217,824	29,177	-	247,001
<b>Cyfanswm</b>	<b>233,806</b>	<b>1,399,544</b>	<b>181,510</b>	<b>138,647</b>	<b>1,953,507</b>
					964,723



Dyma gostau uniongyrchol y staff gweithredol a gyflogwyd gan LBRO yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys cyflogau, yswiriant gwladol, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a staff asiantaeth. Nid ydynt yn cynnwys costau recriwtio a theithio, sy'n cael eu cynnwys o dan gostau eraill.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion aml-gyflogwr heb ei ariannu, ond ni all LBRO nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Gwnaeth actwari'r cynllun brisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Gallwch weld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil ([www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk)).

Ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2008, roedd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £217,824 yn daladwy i'r PCSPS ar un gyfradd o blith pedair yn yr ystod rhwng 16.7% a 24.3% o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyfloggeion bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. O 2010-11, caiff y bandiau cyflog eu hadolygu ond bydd y cyfraddau'n aros yr un fath. Pennir y cyfraddau cyfrannu i ddiwallu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2009-10 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr cyfredol (dim).

#### a. Costau staff

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Ni thalwyd cyfraniadau cyflogwr i ddarparwyr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 3% i 12.5% o'r cyflog pensiynadwy. Mae cyfloggeion hefyd yn cyfateb cyfraniadau cyfloggeion hyd at 3% o'r cyflog pensiynadwy. Nid oedd unrhyw gyfraniadau cyflogwr yn daladwy i PCSPS er mwyn talu costau buddion cyfandaliadau ar adeg marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad yn sgil salwch y cyfloggeion hyn yn y dyfodol.

Swm y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i ddarparwyr y pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd sero. Swm y cyfraniadau rhagdaledig ar y dyddiad hwnnw oedd sero.

#### b. Nifer cyfartalog y bobl a gyflogir

**Tabl 11: Nifer cyfartalog y bobl a gyflogir**

	2009/10			2008/09		
	Cyfanswm parhaol	Staff	Eraill	Cyfanswm	Staff parhaol	Eraill
Prif Weithredwr/uwch dîm rheoli	5.0	5.0	0.0	6	5	1
Staff polisi a gweinyddiaeth	22.9	20.8	2.1	21	18	3
<b>Cyfanswm y niferoedd cyfartalog</b>	<b>27.9</b>	<b>25.8</b>	<b>2.1</b>	<b>27</b>	<b>23</b>	<b>4</b>

## 5. Eitemau eraill o wariant

**Tabl 12: Eitemau eraill o wariant**

(Ffigurau mewn punnoedd)	1 Ebrill 09 hyd 31 Mawrth 10	1 Hyd 08 hyd 31 Maw 09
Gwariant uniongyrchol ar raglenni	1,573,275	1,395,261
Ffioedd proffesiynol	228,452	67,293
Teithio a chynhaliaeth	152,807	101,762
Rhenti dan brydlesi gweithredu	82,196	41,098
Costau eraill ar gyfer adeiladau	73,843	52,520
Costau personél	60,432	73,350
Tâl archwilwyr allanol - archwiliad statudol	23,750	14,000
Tâl archwilwyr allanol - archwiliad dewisol	-	5,000
Tâl archwilwyr mewnol	12,999	11,241
Cyflenwadau a gwasanaethau eraill	150,850	82,459
<b>cyfanswm eitemau eraill o wariant</b>	<b>2,358,604</b>	<b>1,843,984</b>
<b>Ilog ar brydlesi ariannol</b>	<b>4,700</b>	<b>3,632</b>
Eitemau nad ydynt yn arian parod:		
Dibrisiant	52,983	27,499
Amorteiddiad	38,647	1,974
Costau tâl cyfalaf	14,639	7,292
<b>cyfanswm eitemau nad ydynt yn arian parod</b>	<b>106,269</b>	<b>36,765</b>

## 6. Gwariant ar raglenni

**Tabl 13: Cyflawni rhaglenni o fewn costau gweinyddol**

(Ffigurau mewn punnoedd)	1 Ebr 09 hyd 31 Maw 10	Chwe mis hyd 31 Maw 09
<b>Cynorthwyo gwelliant y gwasanaeth</b>	<b>688,527</b>	<b>651,749</b>
Canolbwyntio ar ganlyniadau a chwsmeriaid	137,282	141,818
Arweinyddiaeth	84,708	19,275
Gallu a chydweithrediad	301,775	408,146
Rheoleiddio ar sail risg	164,762	82,510
<b>Cyflawni cysondeb yn uniongyrchol</b>	<b>433,581</b>	<b>368,335</b>
Awdurdod Sylfaenol	433,581	368,335
<b>Gwella'r system</b>	<b>273,362</b>	<b>284,404</b>
Datblygu system o safon fyd-eang	262,770	284,404
Cyngor a pholisïau	10,592	-
<b>Sefydliad rhagorol</b>	<b>298,632</b>	<b>90,773</b>
Ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid	259,639	90,773
Trefniadaeth a llywodraethu	4,540	-
Strategaeth ac ymchwil	34,453	-
<b>Cyfanswm y rhaglenni</b>	<b>1,694,102</b>	<b>1,395,261</b>

Diben yr LBRO yw cyflenwi rhaglenni (gyda chymorth costau gweinyddol gweithredu'r sefydliad) wrth fynd ati i gyflawni pedwar prif amcan. Dangosir gwariant uniongyrchol ar y rhaglenni hyn yn Nhabl 13.

Mae cyfanswm costau'r rhaglenni yn fwy na'r swm a ddengys dan nodyn 5 dan gostau gweinyddol, gan ei fod yn cynnwys costau asiantaethau a ddengys dan gostau staff y cyfrif gwariant net.

Yn ogystal, mae nifer o staff parhaol a rhai aelodau o staff sydd ar secondiad yn cael eu cyflogi i gyflenwi rhai o'r rhaglenni hyn yn uniongyrchol fel elfen sylweddol o'u swyddogaethau. Yr elfen o gostau staff y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i gyflenwi rhaglenni dros y cyfnod hwn yw £510,600. Mae hyn yn gyfystyr â gwariant uniongyrchol o £2,204,700, neu 53% o'r Cymorth Grant wedi'i gymhwyso tuag at wariant refeniw net (gweler y nodyn isod).

## 7. Cymorth Grant

Dengys Tabl 14 gyfanswm y cymorth allanol a gafwyd gan ein noddwr, BIS.

<b>Tabl 14: Grant Cymorth</b>		
	<b>1 Ebr 09 tan 31 Maw</b>	<b>hyd 31 Maw 09</b>
(Ffigurau mewn punnoedd)		
Derbyniwyd gan BIS yn ystod y flwyddyn - dosraniad	4,100,000	2,778,599
Derbyniwyd gan BIS yn ystod y flwyddyn- tynnu i lawr dosraniad 2010-11 yn gynnar	200,000	-
	<b>4,300,000</b>	<b>2,778,599</b>
Llai: grant a gymhwyswyd at brynu asedau sefydlog ac anghyfyrrddadwy	(145,775)	(189,593)
	<b>4,154,225</b>	<b>2,589,006</b>

## 8. Mân incwm

<b>Tabl 15: Mân incwm</b>		
	<b>1 Ebr 09 tan 31 Maw 10</b>	<b>Chwe mis hyd 31 Maw 09</b>
(Ffigurau mewn punnoedd)		
Ad-dalu costau:		
Llywodraeth Cynulliad Cymru	300,000	-
Polisi Defnyddwyr a Chystadleuaeth BIS	97,000	-
Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth porthladdoedd BIS	10,000	-
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	5,000	-
Y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch	5,000	-
SITPRO	2,800	-
Y Swyddfa Fesur Wladol	2,500	-
Y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio	-	2,328
Mentrau Sector Cyhoeddus Gogledd Iwerddon Cyf	-	2,020
Amrywiol	517	-
	<b>422,817</b>	<b>4,348</b>

Mae LBRO wedi cyflawni gwerth £300,000 o brosiectau sy'n benodol i Gymru, yn unol â chynllun busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bu i Gyfarwyddiaeth Polisi Defnyddwyr a Chystadleuaeth BIS dalu £97,000 i LBRO am weinyddu a dosrannu cyllid grant ar gyfer cydweithio rhanbarthol rhwng gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol, sydd yn datblygu'r synergedd â rhaglen gydlynu rhanbarthol LBRO sydd eisoes yn bodoli. Mae'r taliadau i'r cyrff rhanbarthol wedi'u cynnwys fel cyfraniadau dan eitemau eraill o wariant yn y cyfrif gwariant net.

## Nodiadau ar y Fantolen

### 9. Eiddo, peiriannau ac offer

Tabl 16: Eiddo, peiriannau ac offer

(Ffigurau mewn punnoedd)	1 Ebr 09 hyd 31 Maw 10			Cyfanswm	Chwe mis hyd 31 Maw 09
	Gwella llesddaliadau	Offer TG	Dodrefn a ffitiadau		Cyfanswm
<b>Cost neu brisiad gros</b>					
Ar ddechrau'r cyfnod cyfrifyddu	70,301	128,802	74,697	<b>273,800</b>	273,800
ychwanegiadau	-	-	-	-	-
gwarediadau	-	-	-	-	-
aiddosbarthiadau	-	-	-	-	-
ailbrisiadau	-	-	-	-	-
<b>Balans ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu</b>	<b>70,301</b>	<b>128,802</b>	<b>74,697</b>	<b>273,800</b>	273,800
<b>Dibrisiant</b>					
Ar ddechrau'r cyfnod cyfrifyddu	8,202	43,629	14,542	<b>66,373</b>	38,874
cost a godwyd yn ystod y cyfnod	7,029	34,319	11,635	<b>52,983</b>	27,499
gwarediadau	-	-	-	-	-
aiddosbarthiadau	-	-	-	-	-
ailbrisiadau	-	-	-	-	-
<b>Dibrisiant wedi cronni ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu</b>	<b>15,231</b>	<b>77,948</b>	<b>26,177</b>	<b>119,356</b>	66,373
<b>Llyfrwerth net ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu</b>	<b>55,070</b>	<b>50,854</b>	<b>48,520</b>	<b>154,444</b>	207,427
Llyfrwerth net ar ddiwedd y cyfnod blaenorol	62,099	85,173	60,155	207,427	234,926
<b>Cyllido asedau</b>					
dan berchnogaeth	55,070	30,170	48,520	<b>133,760</b>	161,922
dan brydles ariannol	-	20,684	-	<b>20,684</b>	45,505
<b>Llyfrwerth net ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu</b>	<b>55,070</b>	<b>50,854</b>	<b>48,520</b>	<b>154,444</b>	207,427

## 10. Asedau anghyffyrddadwy

Tabl 17: Asedau Anghyffyrddadwy

	1 Ebr 09 hyd 31 Maw 10			Chwe mis hyd 31 Maw 09	
	System rheoli trwyddedau meddalwed d	System rheoli cysylltiadau cwsmeriaid trwyddedau meddalwedd	Trwyddedau meddalwedd a datblygiad Awdurdod Sylfaenol	Cyfanswm	Cyfanswm
(Ffigurau mewn punnoedd)					
<b>Cost neu brisiad gros</b>					
Ar ddechrau'r cyfnod cyfrifyddu	16,947	19,742	152,904	<b>189,593</b>	-
ychwanegiadau	-	-	145,774	<b>145,774</b>	189,593
gwarediadau	-	-	-	-	-
aiddosbarthiadau	-	-	-	-	-
ailbrisiadau	-	-	-	-	-
<b>Balans ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu</b>	<b>16,947</b>	<b>19,742</b>	<b>298,678</b>	<b>335,367</b>	189,593
<b>Amortiddiad</b>					
Ar ddechrau'r cyfnod cyfrifyddu	-	1,974	-	<b>1,974</b>	-
cost a godwyd yn ystod y cyfnod	3,389	3,949	31,309	<b>38,647</b>	1,974
gwarediadau	-	-	-	-	-
aiddosbarthiadau	-	-	-	-	-
ailbrisiadau	-	-	-	-	-
<b>Amortiddiad wedi cronni ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu</b>	<b>3,389</b>	<b>5,923</b>	<b>31,309</b>	<b>40,621</b>	1,974
<b>Llyfrwerth net ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu</b>	<b>13,558</b>	<b>13,819</b>	<b>267,369</b>	<b>294,746</b>	187,619
Llyfrwerth net ar ddiwedd y cyfnod blaenorol	16,947	17,768	152,904	187,619	-
<b>Cyllido asedau</b>					
dan berchnogaeth	13,558	13,819	267,369	<b>294,746</b>	187,619
<b>Llyfrwerth net ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu</b>	<b>13,558</b>	<b>13,819</b>	<b>267,369</b>	<b>294,746</b>	187,619

## 11. Amhariadau

Ni fu unrhyw amhariadau ar asedau.

## 12. Rhestri eiddo

Nid yw LBRO yn dal eitemau ar gyfer eu hailwerthu, nac yn cadw stoc o gyhoeddiadau.

## 13. Symiau derbyniadwy masnachol ac asedau cyfredol eraill

### a) Dadansoddiad yn ôl teip

**Tabl 18: Symiau derbyniadwy masnachol ac asedau cyfredol eraill**

(Figurau mewn punnoedd)	31 Maw 10	31 Maw 09
<b>Symiau'n ddyledus ymhen blwyddyn</b>		
symiau derbyniadwy masnachol	75,000	4,348
symiau derbyniadwy eraill	5,540	6,005
blaendaliadau ac incwm wedi cronni	130,489	164,533
<b>Cyfanswm y symiau'n ddyledus ymhen blwyddyn</b>	<b>211,029</b>	<b>174,886</b>
<b>Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn</b>		
symiau derbyniadwy masnachol	-	-
symiau derbyniadwy eraill	-	-
blaendaliadau ac incwm wedi cronni	-	-
<b>Cyfanswm y symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn</b>	<b>-</b>	<b>-</b>
<b>Cyfanswm dyledwyr ac asesau cyfredol eraill</b>	<b>211,029</b>	<b>174,886</b>

### b) Balansau o fewn y Llywodraeth

**Tabl 19: Balansau o fewn y llywodraeth**

(Figures in £s)	Symiau'n ddyledus ymhen blwyddyn	Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	Symiau'n ddyledus ymhen blwyddyn	Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn
	31 Maw 10	31 Maw 10	31 Maw 09	31 Maw 09
<b>Balansau gyda:</b>				
cyrff eraill llywodraeth ganolog	95,059	-	4,358	-
awdurdodau lleol	24,633	-	-	-
ymddiriedolaethau GIG	-	-	-	-
corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	-	-	-	-
<i>Is-gyfanswm: balansau o fewn y Llywodraeth</i>	119,692	-	4,358	-
<b>Balansau gyda chyrff allanol i'r Llywodraeth</b>	<b>91,337</b>	<b>-</b>	<b>170,528</b>	<b>-</b>
Cyfanswm dyledion ar 31 Mawrth	211,029	-	174,886	-

## 14. Arian parod a chyfwerth

**Tabl 20: Arian parod a chyfwerth**

(Figurau mewn punnoedd)	31 Maw 10	31 Maw 09
Balans ar ddechrau'r cyfnod	466,492	385,384
Newid net mewn arian parod a chyfwerth	(292,210)	81,108
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>174,282</b>	<b>466,492</b>
Daliwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth gyda:		
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	174,282	466,492
Banciau masnachol ac arian mewn llaw	-	-
Balans ar 31 Mawrth	174,282	466,492

## 15. Symiau taladwy masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

### a) Dadansoddiad yn ôl teip

**Tabl 21: Symiau taladwy masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill**

(Figurau mewn punnoedd)	1 Ebr 09 tan 31 Maw 10	Chwe mis hyd 31 Maw 09
<b>Symiau'n ddyledus ymhen blwyddyn</b>		
symiau taladwy masnachol	121,683	262,728
croniadau ac incwm wedi'i ohirio	203,941	540,003
y rhan gyfredol o brydlesi ariannol	35,271	39,192
<b>Cyfanswm y symiau'n ddyledus ymhen blwyddyn</b>	<b>360,895</b>	<b>841,923</b>
<b>Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn</b>		
eitemau eraill o symiau taladwy, croniantau ac incwm wedi'i ohirio	-	-
prydlesi ariannol	-	35,271
<b>Cyfanswm y symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn</b>	<b>-</b>	<b>35,271</b>
<b>Cyfanswm symiau taladwy masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill</b>	<b>360,895</b>	<b>877,194</b>

### b) Balansau o fewn y Llywodraeth

**Tabl 22: Balansau o fewn y Llywodraeth**

(Figurau mewn punnoedd)	Symiau'n ddyledus ymhen blwyddyn 31 Maw 10	Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn 31 Maw 10	Symiau'n ddyledus ymhen blwyddyn 31 Maw 09	Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn 31 Maw 09
Balansau gyda:				
cyrff eraill llywodraeth ganolog	141,735	-	57,412	-
awdurdodau lleol	20,609	-	200,312	-
ymddiriedolaethau GIG	-	-	-	-
corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	-	-	-	-
<i>Is-gyfanswm: balansau o fewn y Llywodraeth</i>	162,344	-	257,724	-
<b>Balansau gyda chyrff allanol i'r Llywodraeth</b>	<b>198,551</b>	<b>-</b>	<b>584,199</b>	<b>35,271</b>
Cyfanswm dyledion ar 31 Mawrth	360,895	-	841,923	35,271

## 16. Darpariaethau ar gyfer cyfrifoldebau a chostau

Nid yw LBRO yn gwneud unrhyw ddarpariaethau ar hyn o bryd.

## 17. Ymrwymïadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymïadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2010.

## 18. Rhwymedigaethau dan brydlesi

### Prydlesi gweithredu

Mae ymrwymïadau o dan brydlesi gweithredu i dalu rhent yn ystod y flwyddyn yn dilyn blwyddyn y cyfrifon hyn yn cael eu nodi yn Nhabl 23, ac yn cael eu dadansoddi yn ôl y cyfnod y daw'r brydles i ben.

**Tabl 23: Prydlesi gweithredu**

(Figurau mewn punnoedd)	1 Ebr 09 tan 31 Maw 10	Chwe mis hyd 31 Maw 09
<b>Mae'r ymrwymïadau dan brydlesi gweithredu yn cynnwys:</b>		
Adeladau:		
sy'n dod i ben ymhen blwyddyn	82,267	82,267
sy'n dod i ben ar ôl blwyddyn ond ymhen pum mlynedd	147,396	229,663
sy'n dod i ben wedi hynny	-	-
	229,663	311,930
Eraill:		
sy'n dod i ben ymhen blwyddyn	104,596	111,243
sy'n dod i ben ar ôl blwyddyn ond ymhen pum mlynedd	-	44,383
sy'n dod i ben wedi hynny	-	-
	104,596	155,626

### Prydlesi ariannol

Mae'r ymrwymïadau dan brydlesi ariannol fel a ganlyn.

**Tabl 24: Prydlesi ariannol**

(Figurau mewn punnoedd)	1 Ebr 09 tan 31 Maw 10	Chwe mis hyd 31 Maw 09
<b>Mae'r ymrwymïadau dan brydlesi ariannol yn cynnwys:</b>		
Eraill:		
rhenti sy'n dyledus ymhen blwyddyn	36,577	39,906
rhenti sy'n dyledus ar ôl blwyddyn ond ymhen pum mlynedd	-	35,271
rhenti sy'n ddyledus wedi hynny	-	-
	36,577	75,177

## 19. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae'r sefydliad yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol, sy'n cael ei noddi gan ac sy'n eiddo i BIS, rhan o'r llywodraeth. Caiff y gydberthynas ei rheoli drwy BRE.



Caiff y cyrff hyn eu hystyried fel parti cysylltiedig ac mae LBRO wedi ymgymryd ag amrywiaeth o drafodion gyda hwy yn ystod y cyfnod. Yn ystod y flwyddyn ariannol, bu i LBRO dderbyn £4,300,000 mewn cymorth grant gan BIS, y parti cysylltiedig sy'n ei reoli, gan gynnwys blaenswm o £200,000 o'r grant ar gyfer 2010/11.

Yn ogystal â hynny, mae LBRO wedi ymgymryd ag ychydig o drafodion ag adrannau eraill y Llywodraeth, a chyrrff eraill sy'n rhan o'r llywodraeth ganolog.

Mae LBRO wedi llofnodi, neu bron â chwblhau, Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda phum rheolydd cenedlaethol er mwyn gwella'r system a ddefnyddir i ryngweithio gyda gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol. Cafwyd trafodion ar gyfer darparu gweithwyr ar secondiad gyda'r Swyddfa Masnachu Teg a'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch, gyda symiau gwerth £4,400 a £35,000 yn y drefn honno, yn daladwy i'r sefydliadau hyn ar 31 Mawrth 2010, ac wedi'u cynnwys o fewn symiau taladwy masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill.

Mae un cyfarwyddwr anweithredol, Rob Leak, yn Brif Weithredwr Bwrdeistref Enfield Llundain.

Nid yw unrhyw aelod bwrdd, na rheolwr allweddol na phartïon cysylltiedig arall, wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol gyda LBRO yn ystod y cyfnod.

## 20. Digwyddiadau wedi'r fantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau wedi'r fantolen i'w nodi. Awdurdodwyd y cyfrifon i'w cyhoeddi ar 2 Gorffennaf 2010, sef y dyddiad yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## 21. Colledion a thaliadau arbennig

Nid oes unrhyw daliadau arbennig adroddadwy ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010.

## 22. Offerynnau ariannol

Caiff adnoddau LBRO eu diwallu ar ffurf cymorth grant gan yr adran noddï, BIS. Nid oes gan LBRO unrhyw bwerau i fenthg arian na buddsoddi cronfeydd dros ben. Ar wahân i asedau ariannol a chyfrifoldebau a gynhyrchir yn sgil gweithgareddau o ddydd i ddydd, nid oes gan LBRO unrhyw offerynnau ariannol.

## 23. Cysoni diffyg ar gyfer y cyfnod i'r gronfa gyffredinol wrth gefn

**Tabl 25: Cysoni diffyg ar gyfer y cyfnod i'r gronfa gyffredinol wrth gefn**

(Figurau mewn punnoedd)	Chwe mis	
	Nodiadau 1 Ebr 09 tan 31 Maw 10	hyd 31 Maw 09
Gwarged a dducpwyd ymlaen	2	159,230
Grant cymorth a dderbyniwyd	7	4,300,000
Diffyg ar gyfer y cyfnod	(3,985,624)	(2,837,464)
Gwarged net ar gyfer y cyfnod	314,376	(58,865)
<b>Gwarged a dducpwyd ymlaen</b>	<b>473,606</b>	159,230



**Cyhoeddwyd gan TSO (The Stationery Office) ac ar gael o:**

**Arlein**

**[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)**

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion Ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522

Archebwch drwy Linell Frys Seneddol galwad isel: 0845 702 3474

Archebion Ffacs: 0870 600 5533

E-bostiwrch: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Ffôn Destun: 0870 240 3701

**The Parliamentary Bookshop**

12 Bridge Street, Parliament Square,

London SW1A 2JX

Archebion Ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

Ebostiwrch: [bookshop@parliament.uk](mailto:bookshop@parliament.uk)

Y we: <http://www.bookshop.parliament.uk>

**TSO@Blackwell ac Asiantwyr Archrededig eraill**

**Hefyd, gall cwsmeriaid archebu cyhoeddiadau gan:**

TSO Ireland

16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD

Archebion Ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 028 9023 8451

Archebion Ffacs: 028 9023 5401

ISBN 978-0-10-296443-1



9 780102 964431